

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 18fed Hydref, 2006 am 10.00am

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr R E Barton (Sylwedydd), G C Evans, G A Jones, M M Jones, N H Jones a G J Pickering.

Yn cynrychioli Cydbwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

M B Lloyd (Cadeirydd), I Barros-Curtis, M Bradshaw a J Buckley Jones.

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

T Bryer, H Ellis, R Elms, S Harris, M Hatch, Parch B H Jones, T Ap Sion a C Williams (sylwedydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd/Ymgynghorydd AG (G Craigen), Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R Davies), Uwch Swyddog Addysg (Gynradd) (G Luke Jones) a B Bowen (Cyngor Rhyng-Ffydd Cymru).

DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorydd C L Hughes.

MYFYRDOD TAWEL

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

CYHOEDDIADAU

Y Cadeirydd:

- (i) Cyfeiriodd at lythyr o ymddiswyddiad a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Mona Evans, yn cynrychioli Eglwys Annibynnol Cymru. Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad o gyfraniad Mrs Evans i waith y Pwyllgor;
- (ii) Llongyfarchodd Mrs Julia Buckley Jones ar ei phenodiad fel Pennaeth Ysgol Babanod Abergele;
- (iii) Croesawodd i'r cyfarfod gynrychiolydd newydd yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, Mr Michael Hatch, a chynrychiolydd newydd Cymdeithas y Cyfeillion Mr Rodney Elms;
- (iv) Croesawodd y Cynghorydd N H Jones yn ôl i'r cyfarfod ar ôl ei salwch yn ddiweddar, ac

- (v) adroddodd bod Kath Jones (Swyddog Gweinyddol) wedi rhoi genedigaeth i ferch fach ar Awst 2006.

1 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2006 (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 19 Medi 2006.

Materion yn codi:

- (i) Tudalen 2 - Eitem rhif 1 Cofnodion: Materion yn Codi - Adroddiad Arolygu Monitro a Chefnogi - adroddodd yr Ymgynghorydd/Arolygydd AG y byddai Esgobaeth Wrecsam nawr yn rhoi cefnogaeth a chyngor i Ysgolion uwchradd/cynradd Pabyddol ac na fyddai angen iddo fynychu'r ysgolion hynny. Dywedodd y byddai'r Esgobaeth hefyd yn darparu adroddiadau monitro i'w hystyried gan CYSAG. Nododd y Cadeirydd bod yn rhaid i'r Pwyllgor dderbyn y sefyllfa ond mynegodd ei siom gyda'r penderfyniad.
- (ii) Tudalen 4 - Eitem 5 - adroddiad ar ddarparu AG yng Nghonsortium Ysgolion Y Rhyl - adroddodd Mr M Hatch, cynrychiolydd EUD, bod ei wŷr nawr yn mynychu ysgol yn y consortium a chyfeiriodd at y cynnydd rhagorol roedd yn ei wneud.
- (iii) Tudalen 7 - eitem 7 - Rhaglen Moderneiddio Addysg - dywedodd yr Ymgynghorydd/Ymgynghorydd AG nad oedd wedi cysylltu â Cambridge Education Consultants yn uniongyrchol ond ei fod wedi siarad gyda Rheolwr Project y Cyngor (Mr D Evans). Roedd yr ymgynghorwyr yn ymwybodol o rôl CYSAG ond roedd eu briff wedi ei gyfyngu i faterion ad-drefnu/ailstrwythuro yn unig. Ni fyddai arolwg Price Waterhouse Coopers ar gyllid ysgolion yn delio gyda chyllidebau dirprwyedig ysgolion ac roedd y mater a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â hyfforddiant mewn swydd a ariennid gan gyllidebau dirprwyedig.
- (iv) Tudalen 8 - eitem 7 - penderfyniad (a) - adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi ymweld â Phrifysgol Hope fel rhan o gyd-ddirprwyaeth CYSAGau o Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy ac y byddai'n adrodd ar eu hymweliad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn y cofnodion.

3 CYFLWYNIAD – ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL GYNRADD Y SANTES FFREWI, DINBYCH

Ymddiheurodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am absenoldeb cynrychiolydd o'r ysgol i roddi cyflwyniad heddiw. Dywedodd nad oedd wedi derbyn ymateb gan yr ysgol i'r gwahoddiad ond byddai'n holi ymhellach.

Gofynnodd y Cyngorydd N H Jones am esboniad ar reolau derbyn i Ysgol y Santes Ffrewi a'r nifer a dderbyniwyd bob blwyddyn yn seiliedig ar ganlyniadau arholiad, crefydd ac ati.

Dyweddodd yr Uwch Swyddog Addysg (Gynradd) bod yr ysgol yn un a gynorthwyr gydag Ymddiriedolaeth a'i bod yn rheoli ei meini prawf derbyn ei hunan a gyhoeddwyd bob blwyddyn yn y wasg leol. Cyfeiriodd yn fyr at y meini prawf derbyn i'r ysgol a oedd yn bennaf yn seiliedig ar ganlyniadau arholiad ond nid oedd yn cynnwys anghenion arbennig, catholigrwydd ac ati. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr ysgol yn eglwys Babyddol ond bod ganddi ethos Pabyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Parch. B H Jones, cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y fformat newydd ar gyfer tu blaen adroddiadau a gyflynydd ar ôl sylwadau gan Brif Weithredwr y Cyngor ar yr angen i wella mecanweithiau adrodd ar gyfer CYSAG, yn enwedig mewn perthynas â chefnidir, pwrpas adroddiad, argymhellion ac ati.

Teimlai'r Cadeirydd bod safon adrodd i CYSAG yn rhagorol ac awgrymodd bod y Prif Weithredwr yn cael ei wahodd i'r cyfarfod nesaf i gael gwybodaeth bersonol o sut 'roedd y Pwyllgor yn gweithredu.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *gofyn i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn cysylltu gydag Ysgol y Santes Ffrewi mewn perthynas â rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor, a*
- (b) *gwahodd y Prif Weithredwr i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2005/06

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau dderbyn fersiwn drafft Adroddiad Blynyddol CYSAG ar gyfer y flwyddyn academiaidd flaenorol. Dywedodd bod angen i'r CYSAG, yn statudol, gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a'i gyflwyno i'r Adran ar gyfer Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DELLS) erbyn 31ain Rhagfyr 2006 a'i ddsbarthu i holl ysgolion, colegau a sefydliadau eraill â diddordeb.

Dyweddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod y Pwyllgor wedi trafod y cyfarwyddyd gan DELLS ar gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol ac y bu nifer o newidiadau yn y drefn. Cyfeiriodd at y crynodeb gweithredol ac roedd y falch o adrodd bod yr AALI wedi gweithredu'r cyngor a roddwyd.

Arweiniodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau trwy'r Adroddiad Blynyddol a chyfeiriodd yn benodol at: y maes llafur a gytunwyd; safonau; dulliau dysgu; adnoddau dysgu; addoli cyfunol; diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant; gwerth cyfarwyddyd a deunyddiau a roddwyd i ysgolion a materion eraill lleol a chenedlaethol.

Wrth gloi, cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y canlyniadau arholiad a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *Derbyn Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Ddinbych ar gyfer Addysg Grefyddol 2005/2006, a*
- (b) *gofyn i'r Awdurdod Addysg baratoi a dosbarthu'r adroddiad.*

5 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO YSGOLION

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ddadansoddi sylwadau a wnaed yn adroddiadau diweddar Estyn ar dair ysgol yn yr AALI a chydabod agweddau positif a negyddol y ddarpariaeth YMCD ac AG lle'r oedd yn rhan o'r archwiliad.

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG mai'r tair ysgol a archwiliwyd oedd Ysgol Dyffryn Iâl, Llanarmon, Ysgol Dinas Bran, Llangollen ac Ysgol y Faenol, Bodelwyddan. Cyfeiriodd hefyd at Adroddiad Archwilio ychwanegol mewn perthynas ag Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod).

Gan gyfeirio at y prif adroddiad, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG nad oedd addysg grefyddol yn bwnc penodol yn unrhyw un o'r 3 ysgol., Cyfeiriodd at y dadansoddiad o'r adroddiadau a dywedodd bod 50 o sylwadau positif wedi eu gwneud o gymharu gydag ond 13 o rai negyddol. Teimlai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG nad oedd meysydd pryder gwirioneddol ac y byddai'r ysgolion yn delio gyda'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Adroddodd y Cynghorydd R E Barton bod Ysgol Dyffryn Iâl yn ei ward ef a mynegodd syndod nad oedd yr adroddiad yn nodi ei bod yn ysgol eglwys. Dywedodd bod yr eglwys yn chwarae rhan fawr yn yr ysgol. Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod safon addoli yn yr ysgol yn gyffredinol dda ond bod angen gwella safon addoliad cyfunol. Dywedodd bod yr adroddiad A.50 yn fanwl iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G J Pickering, adroddodd yr Uwch Swyddog Addysg (Gynradd) mai mater i lywodraethwyr ysgolion oedd arwyddion ar safleoedd ysgol. Dywedodd aelod bod cyfranogiad yr eglwys yn Ysgol Dyffryn Iâl wedi ei drafod yn "Cysylltiadau gyda/cyfranogiad yn y Gymuned Leol".

Mewn ymateb i gwestiwn gan y cadeirydd, esboniodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y gwahaniaeth rhwng adroddiadau Adran 10 ac Adran 50.

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at yr adroddiad archwilio'n ymwneud ag Ysgol Babanod Gwaenynog (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) a'r sylwadau rhagorol a dderbyniwyd gan yr Arolygwyr. Derbyniodd yr ysgol Raddfa 1 ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac Addysg Grefyddol ac nad oedd unrhyw ddiffygion wedi eu hadrodd. Llongyfarchodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y Pennaeth ar ganlyniadau'r Archwiliad.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a chydabod y dadansoddiad o'r Adroddiadau Archwilio;*

(b) *bod llythyrau'n cael eu hanfon at yr ysgolion yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALI i ddelio gydag unrhyw ddiffygion neu faterion allweddol, a*

(c) *gofyn i'r AALI ddsbarthu'r llythyrau uchod.*

6 CYFLWYNIAD – YSGOL BABANOD GWAENYNOG, DINBYCH

Dyweddodd Mrs Julie Buckley Jones, Pennaeth Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych, bod yn ysgol yn dysgu plant 3 - 7 oed a bod y plant yn chwarae rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Dosbarthodd y Pennaeth esiamplau o waith y plant yn y cyfarfod a dywedodd eu bod hefyd wedi creu llyfr o weddïau ar ôl y trychineb yn New Orleans yn 2005.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, adroddodd y Pennaeth sut bu i'r disgyblion ddysgu am Wyl Divali'r Hindwaid ac actio stori Rama a Sita. Dywedodd bod yr ysgol wedi gweithio'n agos gyda Debra Pierce, athrawes yn Ysgol Uwchradd Dinbych a bod disgyblion o'r ysgol honno wedi mynychu Ysgol Gwaenynog bob blwyddyn mewn addoliad cyfunol ac i chwarae rhan mewn gwersi crefyddol.

Adroddodd y Pennaeth bod y plant wedi gwneud arteffactau ac ati yn eu hastudiaethau ar yr wyl a chyfeiriodd at y cymhorthion rhagorol a oedd ar gael i'r ysgol trwy wasanaeth llyfrgell y sir. Teimlai bod y plant wedi dysgu sgiliau allweddol trwy eu gwaith ar wyliau o'r fath. I gloi, diolchodd y Pennaeth i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth yn ystod ei chyfnod yn y swydd a diolchodd hefyd i'r Cynghorydd M M Jones am ei hymweliad â'r ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Ms B Bowen dywedodd y Pennaeth bod y blaengaredd i gynnwys yr wyl yn ei gwaith AG wedi dod o fewn yr ysgol ond bod cyngor wedi ei geisio hefyd gan yr AALI a CYSAG. Teimlai bod actio digwyddiadau o'r fath yn helpu gyda dysgu a datblygiad y plant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth am ei chyflwyniad rhagorol a llongyfarch yr ysgol ar ganlyniadau'r Bwrdd Archwilio.

7 PRIFYSGOL HOPE: HCA – ADRAN AG

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad llafar ar yr ymweliad â Phrifysgol Hope, Lerpwl gan gynrychiolwyr y tri Pwyllgor CYSAG. Dywedodd bod yr ymweliad yn un ysgogol iawn ac yn brofiad gwerth chweil. Roedd y grŵp wedi cyfarfod â'r Athro Addysg Gristnogol a esboniodd strwythur y cyrsiau a oedd ar gael a chafwyd trafodaethau'n anffurfiol gyda myfyrwyr wrth fynychu Sesiwn AG Uwchradd. Teimlai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod safon HCA yn y Brifysgol yn rhagorol.

Ategodd y Parch. B Jones y sylwadau uchod a chyfeiriodd at frwdfrydedd y myfyrwyr a oedd yn awyddus i farchnata AG o fewn cwricwlwm yr ysgol. Teimlai bod y dulliau dysgu'n ymarferol iawn, gyda'r myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau yn rhannu syniadau. Cyfeiriodd y Parch Jones at yr adnoddau a oedd ar gael trwy'r rhyngwyd ac yn dilyn ymlaen o'r trafodaethau gyda'r myfyrwyr, teimlai bod teimlad gwych o obaith ar gyfer y dyfodol.

Dyweddod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod adroddiad ar yr ymweliad ar gael i'r Pwyllgor a chyfeiriodd at y trafodaethau gyda'r Brifysgol ar ddatblygu cysylltiadau gyda CYSAGau. Awgrymodd bod cyd-gyfarfod o'r CYSAGau yn cael ei gynnal yn y gwanwyn 2007 a fyddai'n cyd-daro gyda chyhoeddi'r Arolwg o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chaniatáu cyd-drafodaeth ar y ddogfen honno hefyd. Y bwriad oedd y byddai aelod o'r Adran AG yn Hope yn rhoi cyflwyniad i'r cyd-gyfarfod.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a chydnabod sylwadau'r cynrychiolwyr a fynychodd y coleg;*
- (b) *gofyn i'r AALI wahodd yr Adran AG yn y coleg i wneud cyflwyniad i gyd-gyfarfod CYSAG arall gyda CYSAG Sir y Fflint a Chonwy;*
- (c) *gofyn i'r AALI ofyn am ymatebion gan ysgolion sy'n derbyn myfyrwyr o Goleg Hope;*
- (ch) *gofyn i'r AALI drefnu ymweliad â ac o sefydliadau HCA eraill ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, a*
- (d) *gofyn i'r AALI ystyried 'rhwydwaith' cefnogi ar gyfer ANG mewn AG neu gyda chyfrifoldeb am AG.*

8 LLYTHYR GAN YR EGLWYS BRESBYTERAIDD YNG NGHYMURU AR ADDOLI CYFUNOL

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at lythyr a dderbyniwyd gan yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn mynegi pryderon ynglŷn ag Addoli Cyfunol mewn ysgolion. Dywedodd bod ymateb i'r llythyr wedi ei gyflwyno gan yr AALI ond yr unig fater a oedd yn berthnasol i'r CYSAG oedd apêl i gymryd eu rôl i fonitro addoliad mewn ysgolion o ddifrif; sicrhau bod y colegau yn eu hardal â chyrsgiau hyfforddi priodol a bod cyrsiau HMS yn cael eu trefnu.

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod CYSAG yn cymryd rôl gyfrifol trwy gyfrwng adroddiadau archwilio a chyfarwyddyd a roddir i ysgolion. Teimlai mai'r cyllid ar gyfer y cyrsiau HMS oedd y brif broblem ac awgrymodd bod yr Eglwys Bresbyteraidd yn codi'r mater gyda'r Gweinidog. Adroddodd ymhellach bod y colegau'n gweithredu dan feini prawf llym ac y byddai newid tebygol yn y gyfraith ar gyfer addoliad cyfunol i rai dros 16 oed, gyda'r myfyrwyr yn cael hawl i beidio â chwarae rhan mewn addoliad, yn lle'r sefyllfa bresennol lle'r oedd rhieni yn cymryd y penderfyniad hwnnw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G J Pickering adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG:-

- y byddai'n ystyried y cais am hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgol ar addoli mewn ysgolion, ac
- nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ysgolion yn y tair sir nad oeddynt yn darparu addoliad cyfunol ystyrlon.

I gloi, adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod yn y gorffennol wedi cynnig hyfforddiant mewn swydd i ysgolion ond na fu unrhyw ymateb arwyddocaol.

Dyweddod hefyd bod Cymdeithas CYSAG Cymru i godi mater addoliad cyfunol i gael ei gynnwys yn y cymhwyster CPCP ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ei fframwaith.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a ddosbarthwyd i'r aelodau a chytunwyd derbyn y cofnodion.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn y llythyr gan yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru ar Addoli Cyfunol mewn ysgolion, a*
- (b) *chydabod ymateb yr AALI.*

9 PROJECT CYNGOR RHYNG-FFYDD AR GYFER CYMRU

Anerchodd Ms Bridget Bowen, Swyddog Project, y Pwyllgor gan nodi ei bod yn gyfrifol i 15 aelod o'r Cyngor Rhyng-Ffydd a oedd yn ceisio cynnal strwythur rhyng-ffydd yng Nghymru a chreu perthynas ystyrion gyda phob ffyrdd yn y gymuned. Canmolodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn ysgolion ar amrywiaeth a rhan o'i rôl oedd mynychu cyfarfodydd CYSAG/CCYSAGC i ganfod beth oedd yr anghenion a beth oedd y materion a oedd yn wynebu pobl mewn cymunedau ffydd. Roedd y project yn ceisio annog grwpiau rhyng-ffydd ym mhob ardal yng Nghymru ac ystyried y posibilrwydd o greu fforwm rhyng-ffydd ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai Fforwm Gogledd Cymru yna'n ethol aelod i eistedd ar y Cyngor Ffydd i gynrychioli'r rhanbarth. Dywedodd Ms Bowen bod y project yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref ac y gobeithiai y byddai'r fframwaith yn ei le erbyn Mawrth 2007.

Croesawodd y Cadeirydd y Project ac yn enwedig y cysylltiadau arfaethedig gyda'r ysgolion. Dywedodd bod fforwm cenedlaethol cryf iawn yn Lloegr a diolchodd i Ms Bowen am ei chyflwyniad.

Cyfeiriodd Ms Bowen at y project ieuentid ar gyfer Cymru gyda myfyrwyr yn cyfarfod ei gilydd yng Ngholeg Atlantic. Dywedodd bod gwefan yn cael ei datblygu ac y gallai rhanbarthau unigol gysylltu gyda'r wefan honno. Cyfeiriodd y Cynghorydd A G Jones at yr angen i hysbysebu'r project trwy gyfrwng Penaethiaid/Llywodraethwyr/arweinwyr crefyddol ac ati.

Awgrymodd y Cynghorydd G J Pickering y gellid cyfeirio'r holl wybodaeth trwy Reolwr Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:07 p.m.

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:

31ain Ionawr 2007

Eitem ar y
Rhaglen:

3

Adroddiad:

**Cyflwyniad gan Ysgol
Santes Ffraid, Dinbych**

Cefndir i'r Adroddiad:

Sefydlodd CYSAG drefn o dderbyn cyflwyniadau gan ysgol ddethol ym mhob cyfarfod, lle bo modd.

Pwrpas yr Adroddiad:

Galluogi i'r aelodau gael cipolwg ar ddarpariaeth AG ac addoliad cyfunol yn Ysgol Gynradd Santes Ffraid, Dinbych.
(Roedd y cyflwyniad wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer cyfarfod blaenorol CYSAG, ond rhaid oedd ei ohirio)

Argymhellion:

I CYSAG: - derbyn yr adroddiad gan Ysgol Gynradd Santes Ffraid
- Paratoi llythyrau yn diolch i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol am y cyflwyniad

I'r AALI:

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:

31ain Ionawr 2007

Eitem ar y
Rhaglen:

4

Adroddiad:

**Dadansoddiad o
Adroddiadau Archwilio
Estyn**

Cefndir i'r Adroddiad:

Fel rhan o'i rôl fonitro, mae CYSAG yn arolygu elfennau Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) ac Addysg Grefyddol Adroddiad Archwilio Estyn ar ysgolion yn yr AALI.

Pwrpas yr Adroddiad:

Dadansoddi'r sylwadau a wnaed yn yr Adroddiadau Archwilio diweddar ar ysgolion yn yr AALI, a chydnabod agweddau positif a negyddol yn y ddarpariaeth YMCD, ac AG lle'r oedd yn rhan o'r Archwiliad.

Argymhellion:

I CYSAG: - derbyn dadansoddiad o'r Adroddiadau Archwilio;
- cytuno bod llythyrau'n cael eu hanfon at yr ysgolion a archwiliwyd, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a chynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALI wrth ddelio gyda gwendidau neu faterion allweddol;
- gofyn i'r AALI ddsbarthu'r llythyrau uchod;

I'r AALI: - cynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALI i gynorthwyo ysgolion wrth ddelio gyda gwendidau neu faterion allweddol;
- dosbarthu'r llythyrau gan CYSAG i'r ysgolion.

SYLWADAU CYD-DESTUN ADRODDIADAU'R AROLYGIAETH
CYSAG SIR DDINBYCH

31 Ionawr 2007

Ysgol	Dyddiad	Arolygydd Cofrestredig	Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol Cwestiwn Allweddol 3	Arolygydd AG
Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones	25 Medi 2006	T O'Marsh	Glyn Davies	Adran 50 R. Price K.Ranson
<p>Ysgol Uwchradd Gydaddysgol Babyddol dan Gymorth Gwirfoddol yw Ysgol Uwchradd Gyfun y Bendigaid Edward Jones ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 18 oed. Mae 500 disgybl ar y gofrestr gan gynnwys 48 yn y chweched dosbarth. Cynyddodd y nifer sy'n mynychu'r ysgol eleni. Mae yn yr ysgol 16 disgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig datganedig, 19 dan Weithrediad Ysgol Plws a 65 dan Weithrediad Ysgol, cyfanswm o 100. Yn gyfredol mae 27% â hawl i brydau bwyd di-dâl yn yr ysgol, ffigwr sydd uwchlaw'r cyfartaledd Sirol a Chenedlaethol. Yn ei hanfod, mae dalgylch yr ysgol yng nghanol, ac o amgylch y Rhyl, ond mae disgyblion yn teithio ar y bws o Gronant, Dinbych a Chonwy. Mae Ward Gorllewin y Rhyl y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd a chymdeithasol yng Nghymru ac Ewrop. Mae'r disgyblion yn arddangos yr holl sgiliau, galluoedd a'r doniau disgwylidiedig o ystyried yr amrywiaeth yn eu cefndir cymdeithasol. Wynebodd yr ysgol nifer o anawsterau yn ei chyllideb nad yw'n adlewyrchu'n llawn ei hanghenion.</p>				
Ysgol Llywelyn	6 Tachwedd 2006	Merfyn Ll Jones	Brian Warrilow	Heb ei Harolygu
<p>Ysgol gynradd fawr yw Ysgol Llywelyn a gynhelir gan AALL Sir Ddinbych. Lleolwyd yr ysgol i'r de o'r Rhyl ar gyrion y dref. Mae gan yr ysgol 631 o ddisgyblion sy'n cyfateb i amser-llawn rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr a chynrychiolir ganddynt yr amrediad gallu cyflawn. Mae gan wyth disgybl anghenion addysgol arbennig datganedig er bod 125 o ddisgyblion, naill ai dan Weithrediad Ysgol neu Weithrediad Ysgol Plws ac felly'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch cymysg gyda thua traean o dai cyngor a deuparth o dai preifat. Daw'r disgyblion o wahanol gefndiroedd, yn amrywio o'r cymharol gefnog i deuluoedd dan anfantais economaidd. Mae 18% o'r disgyblion yn derbyn prydau bwyd di-dâl yn yr ysgol. Saesneg yw'r iaith a siaredir yn bennaf ar yr aelwyd a 2% yn unig o ddisgyblion sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol.</p>				
Ysgol Clocaenog	6 Tachwedd 2006	Wil Williams	Lisa J. Davies	Lisa J. Davies
<p>Ysgol wledig fach yw Ysgol Clocaenog sy'n gwasanaethu'r pentref ei hun, yr ardal o'i chwmpas a phentrefi Clawddnewydd a Derwen. O safbwynt hanesyddol y mae'n ysgol fach ond bu gostyngiad graddol yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyfredol, mae 20 disgybl amser-llawn ar gofrestr yr ysgol yn ogystal â 2 blentyn oedran meithrin rhan-amser. Cymraeg yw prif iaith cartrefi tua 13% o'r disgyblion, ond daw hanner y disgyblion o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Cred yr ysgol fod tua 87% o'r disgyblion bellach yn siarad Cymraeg yn rhugl hyd at safon mamiaith. Mae'r ysgol o'r farn nad yw'r ardal a wasanaethir ganddi'n gefnog nac yn dioddef o anfantais economaidd. Nid oes yr un disgybl â hawl i dderbyn prydau bwyd di-dâl yn yr ysgol. Cred yr ysgol fod y mwyafrif llethol o ddisgyblion yn dda'n gyffredinol pan dderbynnir hwy i'r ysgol. Mae oddeutu 20% o'r disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, ffigwr sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl ag anghenion addysgol ychwanegol datganedig.</p>				

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiaeth
CYSAG Sir Ddinbych
31 Ionawr 2007**

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL
a DIWYLLIANNOL**

Materion Allweddol:

- *Rhaid i'r arweiniad yn yr ysgol arddangos ei ymroddiad i ymgyrraedd at safonau uchel ynghyd â'r naws Babyddol sy'n gweddu i Ysgol Babyddol (Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones Adran 50).*

SYLWADAU CADARNHAOL

**Darpariaeth ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol
3 Ysgol**

- Gradd 3 – Nodweddion da'n gorbwyso diffygion. (Y B Ben Ed. Jones)
- Mae i ddarpariaeth yr ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol agweddau da sy'n gorbwyso, at ei gilydd, y diffygion.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Gradd 2 - Nodweddion da heb ddiffygion arwyddocaol. (Ysgol Llywelyn)
- Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol. (Ysgol Clocaenog)

Elusennau ac Achosion Da

- Dangosir consyrn am eraill trwy gasglu arian at elusennau ac achosion da.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Disgyblion a myfyrwyr yn ymwneud â chefnogi elusennau yn lleol ac yn rhyngwladol.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Gweithgareddau codi arian a gweithgareddau cymdeithasol dan arweiniad yr ysgol. Cefnogir gweithgareddau o'r fath trwy gydol y flwyddyn.
(Ysgol Llywelyn)
- Gwneir ymdrechion da iawn gan yr ysgol trwy gyfrwng y rhaglen bersonol ac addysgol, cyngor yr ysgol ac amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r difreintiedig yn gymdeithasol.
(Ysgol Llywelyn)
- Trwy waith cwricwlaidd a nifer o weithgareddau eraill sy'n berthnasol elusennau a gwledydd y trydydd byd fel Lesotho, ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.
(Ysgol Clocaenog)

Cynnydd Disgyblion / Ennill Hyder / Sgiliau**3 Ysgol**

- Ceir rhai nodweddion da mewn datblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol. Llwyddodd yr ysgol i ennill y wob. Ansawdd sgiliau Sylfaenol (*Basic Skills Quality*) a chredydir sgiliau allweddol yn y chweched dosbarth.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Mae'r ysgol yn sicrhau fod pob disgybl yn derbyn pob cyfle posibl i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau siarad sy'n cyfoethogi eu profiad dysgu fel eu bod yn ymgyrraedd at safonau uchel.
(Ysgol Llywelyn)
- Ceir cynllunio gofalus ar gyfer cyflwyno ar gyfer cynllunio'r sgiliau sylfaenol a thelir sylw manwl i ddatblygiad y sgiliau allweddol ar draws pob agwedd ar ddysgu. Mae hon yn nodwedd eithriadol ragorol . (Ysgol Clocaenog)

Cysylltiadau â / Cydweithio â'r Gymuned Leol**3 Ysgol**

- Cyfoethogir dysgu disgyblion trwy gyfrwng partneriaeth bositif â rhieni ac â'r gymuned.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Ceir cysylltiadau positif â'r plwyfi lleol.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Ceir trefniadau ar gyfer partneriaeth dda iawn â'r gymuned – trefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf.
(Ysgol Llywelyn)
- Gwneir cyfraniad sylweddol gan ddisgyblion at weithgareddau cymunedol ac mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n glos â nifer o ysgolion cynradd lleol.
(Ysgol Clocaenog)

Rhaglen ar gyfer/Effaith Darpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

- Mae'r rhaglenni gwaith ABCh perthnasol i addysg a chanllawiau ar gyfer addysg gyrfaoedd yn cwrdd â chanllawiau Cynulliad Cymru. (Y B Ben Ed. Jones)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol yn dda. (Ysgol Llywelyn)
- Gwneir ymdrechion da iawn gan ysgol trwy gyfrwng y rhaglen bersonol ac addysgol, cyngor yr ysgol, ynghyd ag amrediad eang o weithgareddau codi arian ar gyfer elusennau er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn ymwneud ag anfanteision cymdeithasol.
(Ysgol Llywelyn)
- Gwneir cyfraniad da iawn o safbwynt ychwanegu at ddealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang, materion yn ymwneud â'r Trydydd Byd a democratiaeth trwy gyfrwng themâu o fewn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a phynciau fel hanes a daearyddiaeth, digwyddiadau elusennol, cysylltiadau â'r India a'r Eidal ynghyd â democratiaeth.
(Ysgol Llywelyn)
- Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn hynod o effeithlon. Mae amser Cylch a'r cyfarfodydd cydaddoli'n hyrwyddo'r agweddau hyn mewn dull sensitif sy'n galluogi disgyblion i drafod materion sy'n bwysig iddynt hwy.
(Ysgol Clocaenog)

Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg Byd / Cysylltiadau rhwngwladol

3 Ysgol

- Ceir rhai nodweddion da parthed hyrwyddo'r ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - ymdriniaeth dda yn y rhaglenni daearyddiaeth, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gwyddoniaeth
 - gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn ystod yr Wythnos Ffocysu
 - Ffurio pwyllgor ar gyfer eco-gyngor ddiweddar
(Y B Ben Ed. Jones)
- Gwneir cyfraniad da iawn o safbwynt ac ychwanegu at ddealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang, materion yn ymwneud â'r Trydydd Byd a democratiaeth trwy gyfrwng themâu o fewn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a phynciau fel hanes a daearyddiaeth, digwyddiadau elusennol, cysylltiadau â'r India a'r Eidal ynghyd â democratiaeth.
(Ysgol Llywelyn)
- Trwy gyfrwng gwaith cwricwlaidd a nifer o weithgareddau eraill mewn perthynas ag elusennau a gwledydd o'r trydydd byd fel Lesotho, ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth byd eang.
(Ysgol Clocaenog)

Gwaith Cyngor yr Ysgol

3 Ysgol

- Anogir disgyblion a myfyrwyr i fynegi eu barn a'r hyn sydd o gonsyrn iddynt trwy gyngor yr ysgol.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Gwelir ymdrech dda iawn gan yr ysgol trwy'r rhaglen bersonol ac addysgol, cyngor yr ysgol ac amrediad eang o gynnal digwyddiadau codi arian i godi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn ymwneud ag anfanteision cymdeithasol.
(Ysgol Llywelyn)
- Mae cyngor yr ysgol wedi ei sefydlu ers cryn amser bellach fel cyfrwng effeithiol i hyrwyddo materion yn ymwneud â'r amgylchfyd.
(Ysgol Llywelyn)
- Mae cyngor yr ysgol yn cyfrannu tuag at fywyd yr ysgol ac yn barod iawn i gynniig syniadau a gwneud penderfyniadau parthed materion sydd o ddiddordeb iddynt. Mae hon yn nodwedd eithriadol. (Ysgol Clocaenog)

Ymwybyddiaeth o/ a Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy

- Ceir rhai agweddau da yn y dasg o hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - ymdriniaeth dda yn y rhaglenni daearyddiaeth, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a rhaglenni cymdeithasol;
 - gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Ffocws a
 - Ffurio pwyllgor eco-gyngor yn ddiweddar
(Y B Ben Ed. Jones)

- Ceir cysylltiadau clos â Sainsbury a Chlwb Pêl-droed y Rhyl i ysgogi datblygu bwyta'n iach ynghyd â'r Comisiwn Coedwigaeth sef plannu coed.
(*Ysgol Llywelyn*)
- Ceir tystiolaeth bod disgyblion wedi bod yn ymwneud â chynlluniau ar gyfer ail gylchu, cadwraeth ynni a datblygu gardd-eco.
(*Ysgol Llywelyn*)
- Gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer addysgu datblygiad cynaliadwy o fewn meysydd pynciol a thrwy ymweliadau amgylcheddol sy'n berthnasol i destun a drafodir ar y pryd.
(*Ysgol Llywelyn*)
- Ceir ddarpariaeth dda ar gyfer codi ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy, a sefydlwyd systemau ailgylchu a chompostio gwastraff. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn amcanu at ennill achrediad Ysgol Eco.
(*Ysgol Clocaenog*)

Cwricwlwm Cymreig /Y Dimensiwn Cymreig

2 Ysgol

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r diwylliant a'r dreftadaeth Gymreig yn dda gyda disgyblion â dealltwriaeth dda o draddodiadau a diwylliant ynghyd â phobl amlwg o Gymru.
(*Ysgol Llywelyn*)
- Rhoddir yr amlygrwydd dyladwy i'r Cwricwlwm Cymreig mewn nifer dda o bynciau cwricwlaidd.
(*Ysgol Clocaenog*)

Cadw/Hyrwyddo Gwerthoedd/Moesau Da/Parch

2 Ysgol

- Mae'r mwyafrif o ddisgyblion a myfyrwyr yn dangos parch tuag at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr â'r ysgol.
(*Y B Ben Ed. Jones*)
- Mae disgyblion yn dysgu adnabod agweddau cadarnhaol ynddynt hwy eu hunain ac eraill ac yn arddangos parch at bawb.
(*Ysgol Llywelyn*)

Cyfraniad Cydaddoli at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol

3 Ysgol

- Ceir yn eu datblygiad ysbrydol a moesol rai nodweddion eithriadol oherwydd effaith cydaddoli, amser Cylch ac ethos cyffredinol yr ysgol.
(*Ysgol Llywelyn*)
- Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn effeithlon iawn. Mae amser Cylch a gwasanaethau cydaddoli'n hyrwyddo'r agweddau hyn mewn dull sensitif sy'n galluogi disgyblion i drafod yr hyn sydd o gonsyrn iddynt hwy.
(*Ysgol Clocaenog*)
- Roedd gwasanaethau Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 yn rhai arbennig am eu bod wedi eu cynllunio'n dda, a'u cyflwyno'n effeithiol. Maent yn amlwg yn gwneud cyfraniad i ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.
(*Y B Ben Ed. Jones Adran 50*)

Gweithgareddau allgyrsiol / Cyfleoedd**2 Ysgol**

- Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion a myfyrwyr i ymestyn eu dysgu a'u profiadau cymdeithasol â rhai nodweddion da sy'n gorbwysu'r diffygion.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Mae'r nodweddion cadarnhaol yn cynnwys: cyfleoedd i ddisgyblion cynrychioli'r ysgol mewn timau a chystadlaethau ym maes chwaraeon ; ymweliadau â gwledydd tramor at ddibenion addysgol a chymdeithasol; ac mae disgyblion yn ymwneud ag astudiaeth maes ac ymweliadau lleol.
(Y B Ben Ed. Jones)
- Cyfoethogir profiad cwricwlaidd a chymdeithasol disgyblion trwy gyfrwng nifer helaeth o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol.
(Ysgol Clocaenog)

Cyfleoedd Cyfartal**2 Ysgol**

- Yn dilyn trafodaethau â disgyblion, gan gynnwys aelodau o gyngor yr ysgol, gwelir bod ganddynt ymwybyddiaeth ragorol o gyfleoedd cyfartal, goddefgarwch a pharch at amrywiaeth.
(Ysgol Llywelyn)
- Ceir polisi cyfle cyfartal clir sy'n ymwneud ag agweddau ar stereoteipio a gweithredir yn effeithlon ar y polisi mewn sawl gweithgaredd allgyrsiol, gweithgareddau cymunedol, perfformiadau a chwaraeon. (Ysgol Llywelyn)
- Mae polisi cyfle cyfartal clir mewn grym ac fe'i adlewyrchir mewn chwaraeon, gweithgareddau'r ystafell ddosbarth a'r gofal arbennig a gymer athrawon a'r staff dysgu cynorthwyol o bob plentyn. (Ysgol Clocaenog)

Datblygiad Diwylliannol**1 Ysgol**

- Dengys enghreifftiau eraill fod gweddïo wedi ei leoli'n addas a'i ddolennu â'r wers.
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

Ansawdd Perthynas**1 Ysgol**

- Mae'r berthynas yn dda trwy'r ysgol gyfan. (Y B Ben Ed. Jones)

Cydymffurfio â Gofynion Statudol ar gyfer Cyd Addoli**1Ysgol**

- Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol i gynnal gwasanaeth o addoliad yn ddyddiol
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

Ansawdd Gwasanaethau Cyd Addoli**1 Ysgol**

- Ceir rhai enghreifftiau da pan yw'r prifathro, tiwtoriaid blwyddyn a staff yn arwain y gwasanaeth gan weithredu fel esiampl dda i'r disgyblion.
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- Cymerodd disgyblion a staff ran yn "Offeren Groesawu" Blwyddyn 7 a gynhaliwyd yn ystod yr arolygiad, gweithred addas a dathliad a oedd yn brofiad

dyrchafol. Roedd ymddygiad y plant yn dda trwy gydol y gwasanaeth. Bu nifer o'r staff yn cydweithio ac roedd y gerddoriaeth o ansawdd dda.

(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

Cysylltiadau â Ymwneud â'r Gymuned Leol

1 Ysgol

- Gwneir cyfraniad sylweddol gan gaplan yr ysgol i litwrgi'r ysgol ac mae perthynas dda rhyngddo a'r staff a'r disgyblion. Mae'n sicrhau fod y litwrgïau'n rhai cynhwysol. Mae'r tîm caplaniaeth yn tyfu a pharatowyd rhai gweithgareddau gogyfer â myfyrio ynghyd â'u dosbarthu i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r caplan yn gwella ac adnewyddu'r capel.

(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

Cyfle i fyfyrrio

1 Ysgol

- Gan fod Tîm Caplaniaeth a Chapel ar gael, darperir cyfleoedd ar gyfer myfyrdod, gweddi a chyfarfodydd. (Ys Ben Ed Jones P Adran 50)

Amcanion / Ethos Cyffredinol

1 Ysgol

- Mae ethos yr ysgol yn meithrin ymrwymiad cryf i ymgynghraedd at ragoriaeth ym mhob agwedd .

(Ysgol Llywelyn)

Darpariaeth / Datblygiad Moesol (a Chymdeithasol)

1 Ysgol

- Mae i'w datblygiad ysbrydol a moesol rai nodweddion rhagorol oherwydd dylanwad gwasanaethau cyd addoli amser cylch ac effaith gyffredinol ethos yr ysgol.

(Ysgol Llywelyn)

Cyfleoedd ar gyfer Cydweithrediad a Chyd-weithio

1 Ysgol

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-weithio'n dda ac yn ymddwyn yn gyfrifol mewn gwersi.

(Y B Ben Ed. Jones)

Datblygiad ysbrydol

1 Ysgol

- Mae i'w datblygiad ysbrydol a moesol rai nodweddion rhagorol oherwydd dylanwad gwasanaethau cyd addoli amser cylch ac effaith gyffredinol ethos yr ysgol.

(Ysgol Llywelyn)

Sgiliau Dysgu Annibynnol

1 Ysgol

- Telir sylw da i drefniadaeth yr ysgol o ddydd i ddydd i hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr trwy ddatblygu eu gallu i reoli eu dysgu eu hunain.

(Ysgol Clocaenog)

Adrodd/Ysgrifennu/Cyfansoddi Gweddiâu

1 Ysgol

- Mae adnoddau ar gyfer gweddiâu ar gael yn ystod cyfnodau cofrestru. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion sydd ynghlwm wrth ddarparu gweithred o addoliad ar gyfer pob plentyn.

(Y B Ben Ed. Jones)

Polisi a Hiliaeth/Hyrwyddo Harmoni Hiliol**1 Ysgol**

- Roedd trafodaethau â'r disgyblion gan gynnwys aelodau o gyngor yr ysgol yn dynodi fod ganddynt ymwybyddiaeth ragorol o gyfleoedd cyfartal, goddefgarwch a pharch at amrywiaeth. *(Ysgol Llywelyn)*

Ymwybyddiaeth o Faterion yn Ymwneud ag Iechyd / Hybu Ysgolion Iach**1 Ysgol**

- Ceir cyswllt clos â Sainsbury's a Chlwb Pêl-droed y Rhyl yn ogystal â'r Comisiwn Coedwigaeth ynglŷn â phlannu coed. *(Ysgol Llywelyn)*

SYLWADAU NEGYDDOL**Cynnydd Disgyblion/Ennill Hyder/Sgiliau****2 Ysgol**

- Fodd bynnag, ceir diffygion mewn adrannau pwysig:
 - Nid oes polisiâu clir o safbwynt datblygu sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm;
 - Nid yw cyd-gysylltwyr wedi gwneud ond ychydig o gynnydd i gynnwys pob adran o fewn y datblygiad hwn; ac ychydig iawn o gyfle i ddefnyddio rhai sgiliau allweddol a welwyd wrth arsylwi llawer o'r gwersi yn ystod yr arolygiad.
- Mae'r diffygion yn cynnwys arafwch y cynnydd a wnaethpwyd yn y cam cynllunio i roi o sgiliau allweddol ar waith ym mhob pwnc. *(Y B Ben Ed. Jones)*
- Mae diffygion yn cynnwys defnydd cyfyngedig o weithgareddau datrys problemau i hyrwyddo dysgu annibynnol. *(Y B Ben Ed. Jones)*
- Diffyg arall yw'r ffaith na roddir ond ychydig o gyfle i ddisgyblion ddatblygu sgiliau datrys problemau ar draws y cwricwlwm. *(Y B Ben Ed. Jones)*
- Mae'r ysgol yn cydnabod fod hyrwyddo sgiliau dwyieithrwydd disgyblion yn adran sydd ag angen ei datblygu ymhellach. *(Ysgol Llywelyn)*

Ansawdd Cydaddoli**1 Ysgol**

- Dylid talu mwy o sylw i uchafbwyntiau'r Offeren ac i'r weithred o ymgynnull a gwasgaru. Roedd rhai agweddau penodol y dylid eu hadolygu ac yn arbennig, y ffaith nad oedd neb ar gael i arolygu'r drefniadaeth, yr amser maith a dianghenraid a dreuliwyd yn y wers flaenorol i baratoi ynghyd â diffyg darpariaeth ar gyfer yr ymatebion sy'n dynodi gwendid ynghlwm wrth yr agwedd hon. *(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)*

Cynllunio ar gyfer Cyd Addoli**1 Ysgol**

- Tra bod aelodau o'r staff yn gwybod pwy sy'n arwain y weddi, nid oes cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r themâu na chysylltiad â'r flwyddyn litwrgaidd. Ychydig o ymdeimlad o gylch yn datblygu a gwelliant a gafwyd yn y cydaddoli. *(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)*

Adrodd / Ysgrifennu / Cyfansoddi Gweddïau**1 Ysgol**

- Darlun cymysg a gafwyd o wneud defnydd o weddi yn yr ystafell ddosbarth. Gall fod yn frysiog ac arwynebol, a heb ei lleoli'n dda. Cafwyd un enghraifft o ddisgyblion yn gweddio'n ar ôl dychwelyd o'r gwasanaeth boreol.

*(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)***Y CWRICWLWM CYMREIG A'R DIMENSIWN CYMREIG**

- Mae'r diffygion yn cynnwys cyfleoedd cyfyngedig i brofi diwylliant Cymreig ar draws y cwricwlwm. *(Y B Ben Ed. Jones)*
- Ni wnaethpwyd archwiliad i nodi cyfraniadau a wnaethpwyd mewn gwahanol bynciau at y Cwricwlwm Cymreig. *(Y B Ben Ed. Jones)*
- Diffyg cyfleoedd i ddisgyblion siarad Cymraeg yn y gwersi a phrofi agweddau ar y diwylliant Cymreig. *(Y B Ben Ed. Jones)*

Hyrwyddo Gwerthoedd/Moesau Da/Parch**1 Ysgol**

- Mae'r diffygion yn cynnwys diffyg parch at yr amgylchedd, yn ôl y gwastraff a adawyd ar safle'r ysgol yn ystod amser hamdden.

*(Y B Ben Ed. Jones)***Ansawdd Cyd Addoli**

- Mae'r diffygion yn cynnwys y profiadau amrywiol a gyflwynir i ddisgyblion a myfyrwyr mewn addoliad yn y grwpiau cofrestru. *(Y B Ben Ed. Jones)*

Gweithgareddau Allgyrsiol/Cyfleodd**1 Ysgol**

- Mae'r diffygion yn cynnwys:
- Gweithgareddau cerdd cyfyngedig ynghyd â rhaglen gyfyngedig o weithgareddau sydd ar gael yn ystod yr awr ginio ac ar ôl yr ysgol. *(Y B Ben Ed. Jones)*

Datblygiad ysbrydol**1 Ysgol**

- Mae'r diffygion yn cynnwys y ffaith nad oes polisi i hyrwyddo datblygiad ysbrydol o fewn ac ar draws y cwricwlwm. *(Y B Ben Ed. Jones)*

Ymwybyddiaeth o / Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy**1 Ysgol**

- Ceir rhai diffygion:
 - Nid oes polisi ysgol ar gael ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac nid oes ond ychydig o broiectau ail gylchu ar waith yn yr ysgol. *(Y B Ben Ed. Jones)*

ADDYSG GREFYDDOL

Materion Allweddol

- *Rhaid i'r ysgol dalu sylw ar fyrder i'r arweiniad gwael mewn addysg grefyddol.*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- *Rhaid codi disgwyliadau mewn addysg grefyddol ar draws yr adran fel bod disgyblion yn amcanu at berfformio'n unol â'u galluoedd.*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- *Rhaid i'r adran addysg grefyddol ei gosod ei hun ar flaen y gad o safbwynt y dysgu a'r gwella o fewn yr ysgol.*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- *Rhaid i'r ysgol dalu sylw i faterion o anghydraddoldeb rhwng bechgyn a merched ac o fewn y strwythur staffio ac arweiniad.*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- *Rhaid i werthuso yn unol â safonau ysgolion Pabyddol fod yn ganolog i'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)
- *Rhaid i'r Llywodraethwyr adolygu polisiau'r ysgol fel eu bod yn derbyn arweiniad trwy gyfrwng gweledigaeth a gwerthoedd sy'n gydnaws â'r grefydd Babyddol.*
(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

SYLWADAU CADARNHAOL

Safonau Cyrhaeddiad

- Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Agweddau da heb unrhyw ddiffygion pwysig.
(Ysgol Clocaenog)
- Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Agweddau da heb unrhyw ddiffygion pwysig.
(Ysgol Clocaenog)

Gwybodaeth/Dealltwriaeth o Gristnogaeth

1 Ysgol

- Gall disgyblion CA1 ddisgrifio'n hyderus y prif wyliau Cristnogol.
(Ysgol Clocaenog)

Gwybodaeth/Dealltwriaeth/Cynnwys Crefyddau Eraill Ar wahân i Gristnogaeth

1 Ysgol

- Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffydd Hindwaidd a gallant ddisgrifio'n fanwl ddulliau addoli eu dilynwyr ynghyd â phrif ddathliadau'r ffydd.
(Ysgol Clocaenog)
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn CA2 ynglŷn ag agweddau ar ddathlu a symbolau'r ffydd Iddewig yn gadarn iawn. Maent yn dechrau gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth mewn crefydd a diwylliant ac yn deall fod cymunedau eraill ag amcanion tebyg i'w rhai hwy eu hunain.
(Ysgol Clocaenog)

- Gall disgyblion yn CA2 ddisgrifio prif nodweddion capel ac eglwys yn fanwl a gallant gymharu eu defodau a'u dulliau addoli. Maent yn trafod prif nodweddion arweinyddion crefyddol yn ogystal â hanes a dysgeidiaeth lesu mewn modd deallus. (*Ysgol Clocaenog*)

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Beibl/Storïau Beiblaidd 1 Ysgol

- Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth gadarn o'r Beibl fel llyfr arbennig a gallant ddwyn i gof nifer o storïau am fywyd lesu. (*Ysgol Clocaenog*)
- Mae disgyblion CA2 yn dechrau gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn bod yn bosibl iddynt addasu neges foesol y damhegion ar gyfer eu sefyllfaoedd hwy eu hunain. (*Ysgol Clocaenog*)

Gwybodaeth/Dealltwriaeth o Gysyniadau Crefyddol/Themâu 1 Ysgol

- Mae disgyblion CA1 yn gwybod nifer o wahanol weddïau ac yn ysgrifennu ac adrodd eu gweddïau eu hunain. (*Ysgol Clocaenog*)
- Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig. (*Ysgol Clocaenog*)

Cyfleoedd i Draffod Materion/Teimladau/Materion Moesol 1 Ysgol

- Mae disgyblion CA1 yn trafod gwerthoedd fel goddefgarwch, gofalu am eraill a maddeuant mewn dull meddylgar iawn. (*Ysgol Clocaenog*)

Y Berthynas Rhwng y Cynllun Gwaith a'r Maes Llafur Cytûn 1 Ysgol

- Mae cwricwlwm yr ysgol yn cwrdd â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r meysydd llafur cytûn lleol ar gyfer addysg grefyddol. (*Ysgol Llywelyn*)

Cyfrifoldeb am eu Dysgu Hwyl eu Hunain 1 ysgol

- Yn y mwyafrif o'r gwersi mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn barod i gyflawni'r gwaith a osodwyd iddynt. (*Y B Ben Ed. Jones Adran 50*)

Ansawdd Addysgu 1 ysgol

- Pan yw'r cynllunio ar gyfer gwersi'n ddigonol, mae'r gwersi'n fwy cynhyrchiol a'r disgyblion yn ymateb mwy. Er enghraifft, bu dosbarth o Flwyddyn 8 yn gweithio'n dda ar dasg ddysgu annibynnol yn ymwneud â'r deml yn Jerwsalem. Cafwyd tystiolaeth gyda dosbarthiadau ym mlwyddyn 7 o gynllunio mwy effeithlon ar gyfer dechrau a diwedd gwersi. (*Y B Ben Ed. Jones Adran 50*)

Ansawdd / Natur y Cynllun Gwaith 1 Ysgol

- Ceir cynllun gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cwrdd â chanllawiau esgobaethol. Cred yr ysgol yn gywir y byddai adnoddau o gymorth i'r cwricwlwm ac yn arbennig y defnydd o TGCh a hyfforddiant. (*Y B Ben Ed. Jones Adran 50*)

Cyfraniad AG at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol 1 Ysgol

- Mae'r cwricwlwm yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion ynghyd â sicrhau cydlyniad cymdeithasol.

(Y B Ben Ed. Jones Adran 50)

Amser a Neilltuir i AG

- Yn gyffredinol mae'r amser a neilltuir i addysg grefyddol yn cwrdd â'r cyfnod angenrheidiol o 10%.

• Samaritan's Purse – The Chair read pertinent points from a letter that he had received from Barbara Hills, Donor Care – Samaritan's Purse. The four main points were:

1. *Operation Christmas Child delivers these gifts to children across the globe – without regard for nationality, race, religion or political background. Indeed the whole programme is one that – on the giving and receiving ends – is open to people from all walks of life, faith, race and ethnic background, and where the gifts are delivered on the basis of need only.*
2. *Every year OCC delivers shoebox gifts to millions of needy children, requiring nothing from them, their families, or communities in return.*
3. *The gifts are delivered through partner organizations in the recipient countries who are consistently involved in providing aid on a year-round basis to many children who receive the gifts, and who make informed and culturally sensitive decisions about the context in which the gifts and leaflets are distributed.*

Copy

4. We make every effort to ensure that those who make up the shoeboxes for this project are aware that we are a Christian organization by including a copy of our mission statement on all publicity, thus giving everyone the opportunity to decide whether or not to take part voluntarily in the programme.

The letter also addressed the issue of Christian literature being included in the boxes. *No evangelical or religious literature is ever put into the boxes that are sent out from the UK – and this has been the case since the programme started in 1990.*

Members agreed that the letter answered the concerns that had been raised.

- The Chair reported that he had sent a letter to the SACREs drawing attention to the need for working together. No response as yet.
- The Chair reported that he had sent a letter top DELLS enquiring if RE would be included in any familiarization process and as to whether WASACRE can be included. No response as yet.
- The Minister's Office had responded to the request for a date for the annual meeting with her and members of the Executive. No date will be set until after the May elections.
- Better Schools Funding – The Chair distributed copies of excerpts from Better Schools Fund 2007 – 2008 (Circular No: 20/2006). The Chair led

members through the criteria pointing out where RE could be included. A letter had been sent to The Minister thanking her that reesponding to the National Curriculum Review, and thinking and learning skills had been included. Graham Davies responded that the final submissions date had already passed. The Chair responded that we should be making bids for the next round. Vaughan Salisbury felt that there was scope within Activity 5-1aith Pwys Mewn Ysgolion (a) Raising standards across Key Stages (b) Extending pupil opportunities to practice and experience Welsh. The Chair asked that whoever receives the next information keeps him informed as it is not always available on the website.

- Special conference – the final version was to be taken away from the meeting. The Chair thanked the editorial committee for their hard work. The Chair asked the SACREs to respond to the Report.
- The Constitution – to go to the next Executive meeting
- Draft minutes – the Secretary sends these to all SACREs before the minutes are agreed by the Executive. There still seems to be a problem with receipt by some SACREs.
- Attendance – the Secretary had collated the attendance at WASACRE. The Chair reminded members that the three constituent groups should attend the meetings, three plus the Adviser. It would be good if

Draft

Copy

teacher representation could be increased and he asked LEA's to support their attendance by addressing supply costs. Cyng.E.Davies expressed concern as to the lack of LEA representation at the meetings, especially evident at Torfaen where the 'near' SACREs are not represented by their LEA members. He also felt that some continuity of attendees was important.

9. **Recommendations from the Special Conference** (attached)
SACREs are asked to discuss and respond. The Chair commended DELLS on the Conference and had written to thank them. The Chair highlighted that this was the first opportunity for all SACREs to work together and that we are happy to work together. There is a need to revisit RE in the Welsh Baccalaureate and to ensure that the signposting continues.
Mrs.M.Lloyd and Mr.K.Davies had attended a presentation on WB with NUT and had reminded them of past issues. Mr.R.Thomas, on behalf of the Presbyterian Church of Wales, had taken up these issues with Mr.K.Davies. WASACRE will send a letter to WJEC asking to see a copy of the specification and to ask for reassurance that further signposting will occur.

10 **Showcase:**

- Ms.G.Vaisey introduced her books and characters in the Puddles series. The new book 'Puddles lends a paw' was explained. Order forms were distributed

• Mr.R.Thomas spoke of the RE Movement Wales and the recent publications of and RE Ideas.

These have recently been published in Welsh with the second series to be launched during November. Available from RE Services Today – Birmingham. Leaflets were distributed.

• Mr.R.Thomas informed members that REMW Council has agreed to translate into English 2 books on Famous People in Wales.

• Mr.G.Davies distributed copies of a booklet produced by Cardiff on 'The Use of Visitors in Religious Education and Collective Worship'.

• Denize Morris –DELLS spoke of the commissioning of Collective Worship resources to use with the interactive whiteboard. She shared some of the clips with members ('Spirituality Today' : 'Owain Glyndwr': 'Llangollen Eisteddfod') A full script accompanies each presentation. There will be 50 presentations and a contract for a further 50 is being followed up. DELLS is also commissioning Foundation Phase material – KS2 books – KS3 Thinking Skills, and archived material from the BBC. She asked SACREs to recommend teachers who can write good quality materials – a small fee is available.

11 Presentation : CYTUN –
The Inter Faith Forum and the
Inter Faith Project by The
Revd.Aled Edwards – Chief
Executive CYTUN and Brigid

D

Draft

Copy

Bowen – Officer for Inter Faith Project. The Revd Aled Edwards was introduced to WASACRE and The Chair extended congratulations on his appointment as Chief executive to CYTUN and also as Wales Commissioner for Racial Equality. Apologies were given for Brigid Bowen whose car had broken down en-route.

CYTUN is going through a period of change, it used to be a place of dialogue that strove towards organised unity of Christian churches in Wales. Now it serves 12 Churches and has become a place where it serves those communities and has become more outcome based.

Just after the planes crashed into the twin towers in New York, Rhodri Morgan decided to meet with faith leaders, the outcome was the formation of the Inter Faith Council for Wales.

Amongst the Christian representatives are the Archbishop of Wales, the Archbishop for the Roman Catholic Diocese of Cardiff and the General Secretary of the Evangelical Alliance. There are also representatives from the Muslim, Hindu, Buddhist, Sikh and Bahai communities. At present there is debate over Humanist representation. Some faith communities are not represented e.g. Unitarians, Mormons and Jehovah Witness.

The Council is a place where faith communities meet to discuss faith but it also retains the twice yearly meetings with Rhodri Morgan et. al. for robust dialogue. This is where

faith communities will do their lobbying on faith issues and are now moving towards a process where if there are concerns with Government they will be taken forward. There are plans to create regional meetings. There is a need to be properly briefed to take full advantage of the process. Wales is undergoing a period of change with elections in May and the fear is that unless WASACRE is proactive and efficient the vacuum will be filled by ignorance of our existence, the faith communities need to be heard.

Under the Equality Act 2006 this will be the first time that a new body – Commission for Equality of Human Rights will be formed. It will concern itself with race, gender, equality, disability rights, age, sexual orientation and religion. This is a huge remit and there is potential for a clash between faith communities and the secular agenda. Wales will appoint a Commissioner and there will be a Wales Committee, this is a new challenge for all of us.

Brigid Bowen joined the meeting and explained that she will be part of the forming of the new Constitution. She will be setting up an interfaith network for Wales and is employed by CYTUN as project Worker until March. Every region needs access to one of the six forums:- Cardiff, Swansea, Newport, South West, North East and North West. More formal groups will talk to the Interfaith Council and will ensure geographic representation. More information is available from

Draft
Copy

www.interfaithwales.org

Brigid is willing to talk to groups or SACREs her direct email address is info@interfaithwales.org She is working on links with Higher Education with a degree course offered at Trinity College, Carmarthen. A pilot day will be held at Atlantic College in January for young people from all faith backgrounds, the beginning of a Youth Forum.

The Chair thanked both Aled and Brigid for their interesting and informative presentation and urged members to visit the website.

12 Any Other Business

- **RE Council for England and Wales.** A website is to be set up with links to all partnership organizations and a link in Welsh has been agreed. WASACRE is asked to provide two pages of text, the translation cost will be paid by WASACRE. Proposed by Mr.R.Thomas seconded by FR.Ieuan. A meeting in Wales is proposed in May 2007, WASACRE will pay for the venue. Proposed Cllr.M.Gray seconded Mr.H.Evans.
- **DELLS** – Denize Morris spoke of the removal of KS3 tests for core subjects and explained an innovative project where pilot schools are producing portfolios to show exemplification of levels. The information will help teachers to be secure in

assessment. A verification team will visit schools to ensure that internal arrangements are secure in agreeing standards. The idea of a kite mark award is being discussed. The foundation subjects are now on board including RE. Members were asked to support the work. Proposed Mr.H.Evans seconded Cllr.M.Gray.

- **DELLS – commissioning materials** – Please send suggestions to Denize and also identify teachers who could contribute to the work.

13 Date of next meetings

23rd March 2007 – Haverfiordwest - Pembrokeshire

(starting at 10.00 for 10.30)

28th June 2007 Llandrindod Wells – Powys

9th November 2007 – Ebbw Vale – Blaenau Gwent

The Chair thanked Torfaen for the excellent arrangements and for their hospitality in hosting the day. Special thanks were given to Debbie Cummings (SACRE Clerk to Torfaen) for her work in coordinating the welcome choir, orchestra, scrolls and the exhibition. Thanks were given to all concerned including the translator, Nerys.

Draft

Copy

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)
Cyngor Sir Ddinbych**

Dyddiad y cyfarfod:

31 Ionawr 2007

Eitem
Agenda:

7

Adroddiad:

**Yr Adran Addysg, Dysgu
Gydol Oes a Sgiliau
(AADGOS): Adolygiad
Cwricwlwm Ysgol (a)
Fframwaith y Cyfnod
Sylfaen**

Cefndir i'r Adroddiad:

Mae AADGOS wedi bod yn adolygu'r Cwricwlwm Ysgol, ac anfonwyd Dogfennau Ymgynghori i Awdurdodau Addysg Lleol, Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Gorfforol, ysgolion ac undebau/cymdeithasau athrawon. Disgwylir i'r diwygiadau i'r Cwricwlwm gael eu cyflwyno o fis Medi 2008.

Diben yr Adroddiad:

Galluogi'r aelodau i weld y newidiadau sy'n digwydd, ac i werthuso eu hymateb o ran darpariaeth Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen.

Argymhellion:

I CYSAG: - derbyn darnau perthnasol o'r Fframwaith;
- ymateb i'r ymgynghoriad drwy wneud cais (a) i adran Pobl, Credoau a Chwestiynau y Fframwaith Drafft gael ei adfer er mwyn cryfhau lle Addysg Grefyddol i'r rhai 5 – 7 oed (sy'n ofyniad statudol); (b) cynnwys hawl anstatudol i blant 3 – 4 oed wedi'i seilio ar Bobl, Credoau a Chwestiynau, er mwyn darparu sail i'r ddarpariaeth statudol o 5 oed; (c) cryfhau'r cyfeirio at Addysg Grefyddol yn yr adran Cefndir, a'i gynnwys yn y Meysydd Dysgu, a'r tudalennau Dealltwriaeth o'r Byd, yn ogystal â chyfeirio at y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol a meysydd llafur cytunedig lleol.

I'r AALL: -

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3–7 oed*, yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cysylltu ac yn cryfhau'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC, *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000), â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith maes dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi defnyddio tystiolaeth ymchwil i gefnogi cyflwyno a datblygu cwricwlwm priodol. Awgryma'r dystiolaeth ymchwil hon nad yw plant yn dechrau elwa o waith addysgu ffurfiol helaeth nes eu bod yn rhyw chwech neu saith oed, sy'n cyd-fynd â'u datblygiad cymdeithasol a gwybyddol. Gall cyflwyno gwaith addysgu ffurfiol yn gynharach olygu bod rhai plant yn tangyflawni ac yn cyrraedd safonau is. Dylai cwricwlwm Cyfnod Sylfaen priodol – sy'n eang, yn gytbwys, yn berthnasol ac wedi'i wahaniaethu i ateb anghenion datblygiadol pob plentyn – gynorthwyo i atal tangyflawni a chodi safonau cyffredinol.

Mae'r dystiolaeth ymchwil hefyd yn nodi'n glir bod y profiadau a gaiff plant cyn iddynt gychwyn cael addysg yn dair oed yn cael effaith sylweddol ar eu datblygiad. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Yng Nghymru, mae addysg statudol yn dechrau yn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Ar hyn o bryd, mae'r term 'blynyddoedd cynnar' yn cyfeirio at y cyfnod cyn addysg gynradd orfodol, pan fydd plant rhwng tair a phump oed, ac mae Cyfnod Allweddol 1 yn cyfeirio at y ddwy flynedd pan fydd plant rhwng pump a saith oed. Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y ddau grŵp oedran hwn. Bydd y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir yn darparu addysg i blant rhwng tair a phump oed mewn amrywiaeth o leoliadau/ysgolion. Ni fydd oedran addysg orfodol yn newid yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Bydd yn ofynnol i blant fynychu'r ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed o hyd.

Er y cyflwynir y Cyfnod Sylfaen, ni fydd hynny'n effeithio ar ddyletswydd statudol ysgolion a gynhelir i ddarparu addysg grefyddol. Ceir arweiniad ynghylch y gofyniad hwn yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94. Mae'r cylchlythyr yn cadarnhau bod yn rhaid darparu addysg grefyddol ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys y disgyblion sydd mewn dosbarthiadau derbyn ond heb gynnwys y disgyblion sydd mewn ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin. Mae hynny'n amodol ar hawl rhieni i dynnu eu plentyn (plant) yn ôl o addysg grefyddol. Felly, bydd y cynnwys o ran addysg grefyddol yn parhau i gael ei egluro yn y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol, â chynghor yn cael ei roi gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog lleol ar Addysg Grefyddol (CYSAG), neu yn ôl unrhyw drefniadau a wneir gan ysgol o natur grefyddol. Wrth gynllunio'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, dylai ysgolion roi ystyriaeth i ddarpariaeth y fframwaith hwn a darpariaethau perthnasol y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol.

Cyfrifoldebau lleoliadau/ysgolion

Dan ofynion deddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n ymwneud â hil, rhyw ac anabledd, mae dyletswydd ar leoliadau/ysgolion yng Nghymru i blant y presennol a'r dyfodol i:

- ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu, a hybu agweddau cadarnhaol
- hybu cyfle cyfartal ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd lleoliad/ysgol.

Dylai pob plentyn ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n derbyn ac yn parchu pobl eraill. Dylai lleoliadau/ysgolion gynllunio ym mhob maes dysgu i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau a fydd yn galluogi plant i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai lleoliadau/ysgolion ddatblygu dulliau sy'n cynnal hunaniaethau ethnig a diwylliannol pob plentyn ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth o bersbectifau, er mwyn cynnwys y plant a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i leoliadau/ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol a darparu cwricwlwm cynhwysol a fydd yn cynnig cyfleoedd i **bob** plentyn gyrraedd ei botensial llawn wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd.

Bydd angen i leoliadau/ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau profiadau dysgu perthnasol a hygyrch i bawb. I blant ag anableddau yn arbennig, dylent wneud addasiadau rhesymol er mwyn:

- gwella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i wella mynediad i addysg a gwasanaethau cysylltiedig
- darparu gwybodaeth mewn amryw o fformatau.

Dylai lleoliadau/ysgolion ddarparu mynediad i offer a dulliau priodol â gweithgareddau eraill/wedi'u haddasu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan yn llawn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n defnyddio cyfrwng cyfathrebu heblaw siarad.

I blant nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dylai lleoliadau/ysgolion gymryd camau penodol i'w cynorthwyo i ddysgu Cymraeg a/neu Saesneg llafar ac ysgrifenedig trwy'r cwricwlwm. Dylai lleoliadau/ysgolion sicrhau bod y plant yn cael deunyddiau sy'n briodol i'w gallu a'u haddysg/profiad blaenorol ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol ac yn eu herio'n wybyddol. Dylai lleoliadau/ysgolion hefyd hybu'r defnydd a wneir o famiaith y plant ar gyfer dysgu.

Datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae Fframwaith Sgiliau anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn sgiliau meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i blant a dysgwyr 3–19 oed.

Dylai plant gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'u sgiliau trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu. Gellir gweld cynnydd wrth i'r sgiliau hyn gael eu mireinio ac wrth iddynt gael eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i annibynnol a chyd-ddibynnol.

Meddwl

Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau meddwl ar draws y meysydd dysgu gan ddefnyddio prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**. Er enghraifft, ym maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, bydd y plant yn dechrau myfyrio ynghylch eu safbwyntiau a'u credoau eu hunain yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau amrywiol pobl eraill sy'n perthyn i'w diwylliant nhw a diwylliannau eraill.

Cyfathrebu

Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y meysydd dysgu trwy sgiliau sy'n ymwneud â **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**. Er enghraifft, ym maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, bydd y plant yn archwilio, yn cynllunio, yn datblygu ac yn myfyrio ynghylch syniadau trwy wneud ystumiau, siarad, darllen ac ysgrifennu, gan ymateb i'w gwaith eu hunain yn ogystal â gwaith pobl eraill.

TGCh

Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y meysydd dysgu trwy **greu, cyflwyno, darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd. Er enghraifft, ym maes dysgu Datblygiad Creadigol, bydd y plant yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfleu a rhannu gwybodaeth a thrwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio i'w gwaith, ei ddatblygu a'i gyflwyno.

Rhif

Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y meysydd dysgu trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno canlyniadau**. Er enghraifft, ym maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, bydd y plant yn datblygu sgiliau yn ymwneud â chymhwyso rhif trwy weithgareddau sy'n cynnwys trefnu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cadw cyfrif o farciau er mwyn cofnodi a chyflwyno data mewn amrywiaeth o fformatau.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ar draws yr holl feysydd dysgu mewn modd integredig. Dylai'r plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw. Dylent feithrin ymdeimlad o berthyn i Gymru a dylent ddeall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

Mae saith o feysydd dysgu wedi cael eu pennu i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant tair i saith oed, sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Mae'n rhaid i'r meysydd dysgu hynny gyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i ddarparu dull trawsgwricwlaidd o greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol. Ni ddylid eu trin ar wahân. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y meysydd dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig.

Y saith maes dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Dwyieithrwydd
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, a dylid datblygu'r maes dysgu hwn ar draws y cwricwlwm. Dylai'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant ifanc fod yn gyfannol, a dylai'r plentyn fod yn ganolog i unrhyw gwricwlwm a gynllunir. Mae'n ymwneud ag oedolion yn deall, yn ysbrydoli ac yn herio potensial plant i ddysgu. Mae cyfraniad oedolion i weithgareddau chwarae plant o'r pwys mwyaf, yn enwedig pan fydd y rhyngweithio yn cynnwys holi agored, meddwl yn estynedig a meddwl ar y cyd.

Mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng dysgu strwythuredig trwy weithgareddau a gychwynnir gan y plant a'r rheiny a gyfarwyddir gan oedolion. Bydd cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi cyfleoedd i blant ymwneud yn greadigol â'u dysgu eu hunain, ac mae'n rhaid i'r dysgu hwnnw adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, eu diddordebau a'r hyn y maent yn ei ddeall. Mae dysgu gweithredol yn gwella ac yn ymestyn datblygiad plant.

Mae chwarae'n ymwneud â phlant yn dysgu trwy ddyfalbarhau, rhoi sylw i fanylion a chanolbwyntio – nodweddion sydd fel arfer yn gysylltiedig â gwaith. Mae chwarae'n hanfodol nid yn unig i'r ffordd y mae plant yn dod yn ymwybodol o'u hunain a'r ffordd y maent yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol; mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad deallusol.

Dylai ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen gydnabod gwaith dysgu a chyrhaeddiad blaenorol, cynnig dewisiadau, herio plant â gofal a sensitifrwydd, eu hannog, a hybu eu dysgu. Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen fod yn hyblyg er mwyn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r plant gynllunio a darparu cwricwlwm priodol o brofiadau i'r plant hynny sydd mewn cyfnod cynnar yn eu datblygiad a'r rheiny sy'n fwy galluog. Mae ar blant angen cwricwlwm eang, cytbwys sydd wedi'i wahaniaethu. Trwy waith cynllunio priodol a phrofiadau strwythuredig yn y meysydd dysgu, dylai plant dyfu, datblygu a gwneud cynnydd o safbwynt eu datblygiad.

Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, a chaiff sgiliau plant eu datblygu ar draws yr holl feysydd dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a'r tu allan iddo. Caiff plant eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnal hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, a hynny er mwyn dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol ohonynt. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn galluogi plant i dyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli mewn Cymru amlddiwylliannol, a gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno. Dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n elfennau pwysig o'r diwylliannau a geir yng Nghymru.

Caiff cymhelliant ac ymrwymiad i ddysgu eu hannog wrth i blant ddechrau deall eu potensial a'u galluoedd eu hunain. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd ac yn dysgu am yr amrywiaeth o bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Caiff agweddau cadarnhaol eu meithrin tuag at fwynhau eu hamgylchedd a gofalu amdano. Wrth i'w hunaniaeth ddatblygu, mae plant yn dechrau mynegi eu teimladau a dangos empathi ag eraill. Maent yn profi heriau sy'n ymestyn eu gwaith dysgu.

Sgiliau

Datblygiad Personol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- dyfu'n annibynnol o safbwynt diwallu eu hanghenion o ran hylendid personol, a bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol
- mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau – eu rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a phrofiadau newydd
- mentro a thyfu'n chwilotwyr hyderus yn eu hamgylchedd – dan do ac yn yr awyr agored
- arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys TGCh
- dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol
- datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda, a deall sut y gallant wella'u dysgu a defnyddio adborth i wella'u gwaith
- canolbwyntio am gyfnodau cynyddol
- gwerthfawrogi eu gwaith dysgu, eu llwyddiant a'u cyflawniadau eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill.

Datblygiad Cymdeithasol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- ystyried goblygiadau geiriau a gweithredoedd iddynt hwy eu hunain ac eraill
- datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r lleoliad/ysgol o ran ymddygiad, a deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus
- datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu
- ffurfio perthnasoedd a theimlo'n ddigon hyderus i gyd-chwarae a chydweithio ag eraill
- gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd, a bod yn ofalgar ac yn ystyriol
- deall yr hyn sy'n gwneud ffrind da
- datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain
- datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau amrywiol pobl eraill sy'n perthyn i'w diwylliant nhw a diwylliannau eraill
- trin pobl o bob cefndir diwylliannol gan ddangos parch a goddefgarwch
- datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rolau y mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau
- dechrau herio stereoteipiau.

Ystod

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth trwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau, gan gynnwys:

- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant

- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau gan gynnwys rôl arweinydd mewn grŵp bach, gwaith dysgu mewn pâr neu waith a wneir mewn tîm
- gwahanol adnoddau megis adnoddau printiedig a myngweithio
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synwyrddau a bod yn greadigol a dychmygus

Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig, yn sensitif, yn greadigol ac yn reddfol
- cyfathrebu'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol
- cyfathrebu'r penderfyniadau a wneir mewn storiâu neu sefyllfaoedd, neu benderfyniadau personol, a myfyrio yn eu cylch gan awgrymu ymatebion eraill
- ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir
- defnyddio storiâu neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynghylch pam y mae rhai pethau'n arbennig
- profi cyfnodau cyffrous, rhyfeddol, ysbrydoledig, creadigol a/neu dawel, a mynegi syniadau a theimladau am y cyfnodau hynny mewn modd creadigol gan egluro pam y maent yn arwyddocaol
- siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion, a thrafod p'un a yw'r dewisiadau hynny'n golygu bod gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth
- gofyn cwestiynau ynghylch sut a pham y dylid trin pethau arbennig â pharch, ac ymateb yn bersonol
- gofyn cwestiynau ynghylch beth sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill.

Lles

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato
- bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain, a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol
- deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau
- dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd
- datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig iddynt pan fyddant yn chwarae ar eu pen eu hunain a chydag eraill
- deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau
- datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach
- gofyn am gymorth pan fo'i angen
- datblygu dealltwriaeth o'r peryglon a geir yn y cartref a'r amgylchedd sydd y tu allan iddo
- deall eu bod yn cael meddyginiaethau er mwyn teimlo'n well, a deall bod rhai cyffuriau'n beryglus.

- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â nhw eu hunain, pobl eraill a'r byd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddatrys problemau a thrafod canlyniadau
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu diogelwch eu hunain
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach, a datblygu a deall eu cyrff eu hunain a sut y gallant eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

Dylai plant brofi'r byd cyfarwydd trwy ymholi, gan archwilio mewn modd diogel a systematig yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid cynnig profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwilfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a dechrau deall digwyddiadau'r gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw, a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrâu, dylid annog plant i fwynhau dysgu trwy archwilio, ymholi, arbrofi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Dylent ddysgu dangos gofal, cyfrifoldeb, consŷrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd. Dylent ddatblygu a defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol. Dylent ddysgu mynegi eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gan ddangos dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Dylid datblygu sgiliau'r plant ar draws yr holl feysydd dysgu drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau a thrwy ddefnyddio ffynonellau megis storïau, ffotograffau, mapiau, modelau a TGCh.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Sgiliau

Er mwyn profi'r byd cyfarwydd trwy archwilio'r amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored, dylid annog y plant i fod yn chwilfrydig a darganfod pethau trwy:

- archwilio ac arbrofi
- meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny, a gwrando ar yr atebion
- gwrando ar syniadau pobl eraill
- nodi'r hyn y mae arnynt eisiau'i ddarganfod a nodi sut y mae gwneud hynny
- meddwl am beth allai ddigwydd pe bai...
- dod yn ymwybodol o gyflawniadau pobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi dylanwadu ar y byd
- ymchwilio i ffynonellau a materion
- meddwl am sut y byddant yn gwybod bod rhywbeth wedi gweithio
- gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion
- llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau

- didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau
- gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- ffurfio cysylltiadau rhwng elfennau sy'n ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- meddwl yn greadigol a dychmygus
- cyfleu arsylwadau a mesuriadau
- adnabod patrymau syml yn eu canfyddiadau
- disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml
- mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill
- defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny
- myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a gwerthuso'r gwaith hwnnw.

Ystod

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- archwilio ystod eang o symbyliadau
- ymdrin ag adnoddau o amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys ffurfiau rhyngweithiol
- ymchwilio i amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored, gan gynnwys amgylchiadau naturiol wrth iddynt godi
- cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant a'r rheiny sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol
- gweithio ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau bach.

Lleoedd a Phobl

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ddysgu am ble y mae eu hardal leol
- dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a llwybrau
- defnyddio a llunio mapiau syml er mwyn darganfod ble y mae lleoedd penodol a sut y mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill
- adnabod y nodweddion naturiol, e.e. *afonydd, bryniau, traethau*, a'r nodweddion a grëwyd gan ddyn, e.e. *adeiladau, ffyrdd, pontydd*, yn eu hardal eu hunain
- dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o'r byd
- dysgu am sut a pham y mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd, e.e. *y lleoedd y mae pobl*

Ystod

yn gweithio ynddynt ac yn mynd ar eu gwyliau iddynt, y lleoedd y mae teulu a ffrindiau'n byw ynddynt

- defnyddio atlasau a globau
- ymchwilio i sut y mae lleoedd yn newid, e.e. y tywydd, y tymhorau, adeiladau, swyddi pobl
- adnabod sut y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd.

Amser a Phobl

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- roi digwyddiadau, trefniadau arferol a newidiadau mewn trefn, e.e. *yn ystod taith i'r ysgol, mewn stori*
- mesur amser gan ddefnyddio dyfeisiau mesur syml, clociau, oriorau a chalendrau
- adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, e.e. *y newidiadau sy'n digwydd iddynt hwy eu hunain a phobl a manau cyfarwydd*
- sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithredoedd a bod y gweithredoedd hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau
- dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, e.e. *trwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol*
- defnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol gan gynnwys arteffactau ac adeiladau, oedolion yn dwyn eu gorffennol i gof, a ffynonellau gweledol
- edrych ar wahanol bortreadau a dehongliadau o'r gorffennol, e.e. *gwahanol lyfrau//luniau/ffynonellau TGCh sy'n ymwneud â'r un person neu'r un digwyddiad.*

Fi Fy Hun a Phethau Byw Eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ddysgu enwau prif rannau allanol y corff dynol a phlanhigion, a dysgu am y modd y cânt eu defnyddio

- arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio
- adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy eu hunain a phlant eraill
- dysgu am y synhwyrâu y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas
- adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored
- adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion.

Fi Fy Hun a Phethau nad ydynt yn Fyw

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- arbrofi â gwahanol wrthrychau cyffredin, a defnyddio eu synhwyrâu i'w rhoi nhw mewn grwpiau yn ôl nodweddiad syml
- arbrofi â gwahanol ddeunyddiau cyffredin, a defnyddio'u synhwyrâu i'w rhoi nhw mewn grwpiau yn ôl priodweddau syml
- datblygu ymwybyddiaeth o ddeunyddiau synthetig a deunyddiau naturiol, a gallu gwahaniaethu rhyngddynt
- deall sut y mae rhai deunyddiau cyffredin yn newid eu siâp wrth iddynt gael eu hystemyn, eu gwasgu, eu plygu, eu troi, eu twymo neu eu hoeri
- deall bod goleuni'n dod o amrywiaeth o ffynonellau megis yr haul, a bod tywyllwch yn deillio o ddiffyg goleuni
- deall bod nifer o wahanol fathau a ffynonellau o sain ar gael, a bod seiniau'n teithio oddi wrth eu ffynonellau ac yn cael eu clywed wrth iddynt gyrraedd y glust.

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen

Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y graddfeydd a'r disgrifiadau asesu sylfaenol cyfredol yn ogystal â disgrifiadau lefel cyfredol y cwricwlwm cenedlaethol. Maent wedi'u datblygu i fod o gymorth i'r asesiad athrawon statudol a wneir ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ceir chwe deilliant ar gyfer pob maes dysgu ac, er gwybodaeth, mae'r deilliannau canlynol yn croesgyfeirio'n fras at ddisgrifiadau lefel cyfredol y cwricwlwm cenedlaethol:

- Mae Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 1
- Mae Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 2
- Mae Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 3.

Mae'r asesiad athrawon yn ymdrin â holl ystod a chwmpas continwrm dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dylai'r asesiad hwnnw roi ystyriaeth i dystiolaeth o gyflawniad mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys tystiolaeth a ddaeth i law wrth drafod ac arsylwi trwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'n rhaid i athrawon asesu'r deilliannau y mae pob plentyn wedi'u cyflawni yn y meysydd isod ac adrodd yn ôl yn eu cylch mewn asesiad athrawon:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg
- Datblygiad Mathemategol.

Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn disgrifio'r mathau o gyflawniadau ac ystod y cyflawniadau sy'n nodweddiadol o blant yn y Cyfnod Sylfaen. Wrth benderfynu ar ddeilliant y plentyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y plentyn. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Y nod yw dod i benderfyniad cytbwys:

- sydd wedi'i seilio ar wybodaeth am sut y mae'r plentyn yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n rhoi ystyriaeth i'r gwahanol gryfderau a gwendidau sy'n perthyn i berfformiad y plentyn hwnnw
- a gaiff ei wirio yn erbyn deilliannau cyfagos er mwyn sicrhau mai'r deilliant a ddyfernir sy'n gweddu orau i berfformiad y plentyn.

Deilliannau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Deilliant 1

Mae'r plant yn ddibynnol ar oedolion cyfarwydd o safbwynt emosiynol. Maent wedi dechrau mynegi'n syml sut y maent yn teimlo, ac maent yn ymateb i gyfarchion cymdeithasol. Efallai y bydd y plant yn strancio pan fyddant yn teimlo'n rhwystredig, ond maent yn dysgu bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol. Maent wedi dechrau chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu'n gyfochrog â phlant eraill, a hynny'n aml wrth ymyl oedolyn cyfarwydd. Efallai y bydd angen cymorth ar y plant mewn perthynas â sgiliau hunangymorth (personol) pob dydd, ond maent yn awyddus i helpu fel rheol. Maent yn dangos gwybodaeth am drefniadau arferol cyfarwydd sy'n ymwneud â gofal.

Deilliant 2

Mae'r plant yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion, ond nid pan fo hynny'n gwrthdaro â'r hyn sydd o fudd iddynt hwy. Maent yn dangos hoffter at blant eraill, ac efallai y byddant yn chwarae gyda nhw. O gael cymorth gan oedolyn, mae'r plant yn barod i rannu tegau ac adnoddau, a byddant yn cymryd eu tro i wneud rhywbeth. Mae'r plant wedi dod yn ymwybodol o'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain, ac maent yn dechrau uniaethu â theimladau ac emosiynau pobl eraill. Maent yn ceisio bod yn annibynnol, ond mae arnynt angen cymorth weithiau. Maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol, yn enwedig peryglon.

Deilliant 3

Mae'r plant wedi tyfu'n fwy annibynnol o safbwynt eu gwaith dysgu, ac maent yn gallu ymdopi â newidiadau i drefniadau arferol. Maent yn adnabod anghenion pobl eraill ac yn dangos sensitifrwydd cynyddol tuag at yr anghenion hynny. Maent yn dechrau adnabod ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb i reswm. Maent yn dechrau deall y dylid trin popeth byw â gofal, parch a chonsŷrn. Maent yn dangos peth rheolaeth ar eu hemosiynau, a byddant yn aml yn mabwysiadu safonau ymddygiad oedolion sy'n agos atynt. Maent yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o'u hanghenion personol yn annibynnol.

Deilliant 4

Bydd y plant yn cymryd rhan yn annibynnol mewn gweithgareddau chwarae ar y cyd. Maent yn dangos hunanreolaeth gynyddol, ac maent yn gallu aros i'w hanghenion gael eu diwallu. Maent yn gallu canolbwyntio ar dasg, ac mae ganddynt hoffterau a chas bethau pendant. Mae'r plant yn cefnogi, yn cysuro ac yn helpu plant eraill pan fyddant yn drist neu wedi cynhyrfu. Maent yn tyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy a'u cyfoedion, ac maent yn adnabod gwahaniaethau ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r plant yn dangos gofal am yr amgylchedd, planhigion ac anifeiliaid anwes. Maent yn ymwybodol o arferion bwyta'n iach, a gallant wahaniaethu rhwng bwydydd iach a bwydydd nad ydynt yn iach.

Deilliant 5

Mae'r plant yn cymdeithasu, yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n briodol â'u cyfoedion ac oedolion cyfarwydd, ac maent yn gofyn am gymorth pan fo angen. Maent yn adnabod eu teimladau a gallant eu mynegi'n briodol. Maent yn parchu eraill ac yn gwerthfawrogi'u cyflawniadau. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, ac maent yn fwy ymwybodol o deimladau, safbwyntiau a chredoau pobl eraill. Maent wedi deall y cysyniad o chwarae teg, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o reolau a pham y mae'r rheolau hynny wedi'u llunio. Mae gan y plant well

dealltwriaeth o ganlyniadau eu gweithredoedd, ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Ar y cyfan, maent yn gallu rheoli'u hemosiynau ac ymdopi â siom. Maent yn deall y bydd angen iddynt fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw'u cyrff yn iach.

Deilliant 6

Mae'r plant wedi dysgu eu bod yn gallu rheoli eu hemosiynau a'u bod yn gwneud hynny'n aml. Maent wedi dechrau gwneud ffrindiau sy'n bwysig iawn iddynt, ac mae eilunod/arwyr yn chwarae rhan bwysig yn eu gweithgareddau chwarae a'u bywydau. Maent yn deall bod gan bobl wahanol hoffterau, safbwyntiau a chredoau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o'r modd y dylent ymwneud ag eraill o safbwynt moesegol a moesol. Mae'r plant wedi symud ymlaen i allu gweld pethau o safbwynt plant eraill ac oedolion. Mae'r plant yn gymwys o safbwynt adnabod problemau a chanfod ffyrdd o'u datrys. Maent yn gallu dangos eu bod yn medru dyfalbarhau, canolbwyntio a chymell. Maent yn dangos hunanreolaeth briodol. Mae'r plant yn deall sut y gallant wella'u gwaith dysgu, ac maent yn gallu myfyrio.

Deilliannau ar gyfer Dwyieithrwydd

Deilliant 1

Mae'r plant yn gallu deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Maent yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Maent yn fwyfwy awyddus i ddechrau ymuno ag eraill mewn caneuon actol a rhigymau lle defnyddir y bysedd. Mae'r plant yn dechrau dilyn storiâu a ddarllenir iddynt, ac maent yn dechrau ymateb yn briodol ar lafar neu'n ddieiriau. Maent yn dechrau 'tynnu lluniau' gan ddefnyddio'r llaw sydd orau ganddynt ac arbrofi â gwneud marciau.

Deilliant 2

Mae'r plant yn sgwrsio'n syml gan ddefnyddio geiriau Cymraeg yn lle geiriau Saesneg weithiau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml. Maent yn fwyfwy awyddus i ymuno ag eraill mewn caneuon a hwiangerddi. Mae'r plant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn, ac maent yn dangos diddordeb yn eu cynnwys. Maent yn dechrau dilyn storiâu drwy edrych ar y lluniau, ac maent yn gwahaniaethu rhwng print a lluniau. Maent yn rhoi cynnig ar ddefnyddio gwahanol offer i wneud amrywiaeth o farciau ar bapur neu ddeunydd arall priodol.

Deilliant 3

Mae'r plant yn dechrau mynegi eu hunain trwy gyfrwng gweithgareddau chwarae rôl. Maent yn ymateb i gyfarwyddiadau, cwestiynau a symbyliadau eraill a fynegir yn glir gan lais cyfarwydd. Gyda chymorth, maent yn ailadrodd caneuon a rhigymau neu'n eu dysgu ar y cof. Mae'r plant yn gwrandao ar storiâu, caneuon a rhigymau ac maent yn mynegi peth mwynhad a diddordeb. Mae'r plant yn trin llyfr fel pe baent yn ei ddarllen, ac maent yn ymateb i'w gynnwys. Maent yn dechrau deall bod gwyddor yn sail i waith darllen ac ysgrifennu a bod seiniau ac ystyr yn perthyn i symbolau ysgrifenedig. Maent yn dal offer ysgrifennu'n briodol, yn gwahaniaethu rhwng llythrennau ac yn dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol.

Deilliant 4

Mae'r plant yn dangos dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion a fynegir yn glir gan lais cyfarwydd, ac maent yn ymateb trwy gyfrwng ymadroddion llafar byr. Maent yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir wrth efelychu a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Gyda chymorth, maent yn mynegi gwybodaeth syml ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau. Mae'r plant yn adnabod geiriau cyfarwydd. Maent yn cysylltu ffurf ysgrifenedig geiriau â'u sain wrth ddarllen geiriau unigol. Maent yn dangos dealltwriaeth o eiriau unigol trwy gyfrwng ymatebion dieiriau. Mae arnynt angen cefnogaeth/cymorth weithiau. Mae'r plant yn cyfathrebu trwy gopiö'n gywir ac ysgrifennu geiriau a rhai ymadroddion syml a chyfarwydd oddi ar eu cof. Maent yn ysgrifennu llythrennau sydd wedi'u ffurfio'n glir ac sy'n wynebu'r cyfeiriad cywir fel rheol. Maent yn dechrau deall y gwahanol ddibenion a swyddogaethau sy'n perthyn i iaith ysgrifenedig.

Deilliant 5

Mae'r plant yn dangos dealltwriaeth o eitemau byr a fynegir gan lais cyfarwydd trwy ymateb yn ddieiriau neu trwy gyfrwng ymadroddion llafar byr. Maent yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml ac maent yn ymateb i ystod o symbyliadau. Maent yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir ac amrywio'u geirfa a'u patrymau i ryw raddau. Mae'r plant yn adnabod geiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd y mae ganddynt brofiad ohonynt, ac maent yn dechrau dangos diddordeb mewn deunydd ysgrifenedig trwy ddarllen rhai darnau syml. Maent yn dangos dealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i ddarllen trwy ymateb i'r cynnwys ar lafar neu'n ddieiriau. Mae'r plant yn cyfathrebu trwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau weithiau hefyd er mwyn mynegi gwybodaeth ffeithiol a phersonol gan ddefnyddio patrymau cyfarwydd. Caiff geiriau syml eu sillafu'n gywir fel rheol. Caiff priflythrennau ac atalnodau llawn eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb. O ran llawysgrifen, caiff llythrennau eu ffurfio'n gywir ac maent yn gyson o ran maint.

Deilliant 6

Mae'r plant yn dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau byr a fynegir gan lais cyfarwydd trwy ymateb ar lafar neu'n ddieiriau. Maent yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn glir, ac maent yn gwneud rhai datganiadau o'u gwirfodd. Byddant yn mynegi barn yn syml. Maent yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir, ac maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau sy'n gywir fel rheol. Mae'r plant yn darllen testunau syml yn gymharol glir. Maent yn deall testunau sy'n cynnwys ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd, ac maent yn ymateb yn syml iddynt. Byddant yn ymateb i farddoniaeth, storïau a deunydd ffeithiol, ac yn mynegi barn yn eu cylch. Maent yn dechrau darllen yn annibynnol a dewis rhai testunau o'u gwirfodd. Mae'r plant yn ysgrifennu brawddegau byr a syml gan ddefnyddio geirfa a phatrymau addas a chyfarwydd i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol syml yn weddol gywir. Caiff geiriau cyfarwydd eu sillafu'n gywir fel rheol, ac mae'r plant yn dangos peth ymwybyddiaeth o atalnodi sylfaenol trwy ddefnyddio priflythrennau, atalnodau llawn a marciau cwestiwn â rhywfaint o gysondeb. Bydd llawysgrifen y plant yn ddarllenadwy.

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)
Cyngor Sir Ddinbych**

Dyddiad y cyfarfod:

31 Ionawr 2007

Eitem
Agenda:

8

Adroddiad:

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol a Sgiliau (AADGOS): Adolygu'r Cwricwlwm Ysgol (b) Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol

Cefndir i'r Adroddiad:

Mae AADGOS wedi bod yn adolygu'r Cwricwlwm Ysgol, ac anfonwyd Dogfennau Ymgynghori i Awdurdodau Addysg Lleol, Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Gorfforol, ysgolion ac undebau/cymdeithasau athrawon. Disgwylir i'r diwygiadau i'r Cwricwlwm gael eu cyflwyno o fis Medi 2008.

Diben yr Adroddiad:

Galluogi'r aelodau i weld y newidiadau sy'n digwydd, ac i werthuso eu hymateb o ran darpariaeth Addysg Grefyddol a'r gofyniad statudol i adolygu'r Maes Llafur Cytunedig.

Argymhellion:

I CYSAG: - derbyn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol;
- cefnogi'r cyfarfod CYSAGau ar y cyd ar 9 Mawrth er mwyn penderfynu'n derfynol ar yr ymateb i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yng ngoleuni'r ymatebion gan ysgolion;
- cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu'r 'Fframwaith' fel prif sylfaen y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Gorfforol yn Sir Ddinbych (yn amodol ar ei ddiwygio yn dilyn ymgynghori, ac ar sail cyngor ac arweiniad gan weithgor a CHYSAGau eraill);
- hysbysu Cymdeithas CYSAGau Cymru am y penderfyniad hwn;
- gofyn i'r AALL sefydlu gweithgor yn cynnwys athrawon ac aelodau CYSAG i baratoi Maes Llafur Cytunedig diwygiedig (mewn partneriaeth â CHYSAGau lleol eraill), i'w gyflwyno gerbron Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig a darparu deunyddiau cefnogol a dehongli a dogfennau canllaw (mewn partneriaeth â CHYSAGau eraill yng Nghymru).

I'r AALL: - sefydlu gweithgor yn cynnwys athrawon ac aelodau CYSAG i baratoi Maes Llafur Cytunedig diwygiedig ar gyfer Addysg Grefyddol (mewn partneriaeth â CHYSAGau lleol eraill);
- darparu cyllid digonol i'r gweithgor gyflawni ei swyddogaeth.



FFRAMWAITH ENGHREIFFTIOL CENEDLAETHOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL

**Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Addysg
Lleol a Chynadleddau Meysydd
Llafur Cytûn yng Nghymru**

Teitl y ddogfen

Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol:
Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur
Cytûn yng Nghymru

Cynulleidfa

Penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru;
awdurdodau addysg lleol; CYSAGau; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff
cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn gosod cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru am
Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol.

Camau i'w cymryd

Rhaid derbyn ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon erbyn 30 Mawrth 2007.
Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad isod gan ddefnyddio'r amlen rhadbost a
ddarperir, neu eu hanfon yn electronig at rhodri.bowen@btconnect.com
Neu, mae holiaduron ar-lein ar gael yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Gwybodaeth bellach

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghori hwn at Enid Davies
ar 029 2037 5415.

Copïau ychwanegol

Ar gael drwy gysylltu:

Ffôn: 029 2037 5427

Ffacs: 029 2037 5494

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cyfeiriad ar gyfer dychwelyd sylwadau

Uned Pobl a Gwaith
RHADBOST NATW953
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5BR

© Hawlfraint y Goron 2007

ISBN: 0 7504 9004 7

Cyf: AC/CD/0722

Cyhoeddwyd gyntaf Ionawr 2007

Cyflwyniad	2
Sylwadau ar y cynigion: newidiadau allweddol	4
Gofynion statudol	5
Cynnwys pob dysgwr	8
Datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm	10
Y Cwricwlwm Cymreig ac addysg bersonol a chymdeithasol ar draws y cwricwlwm	12
Addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen	13
Addysg grefyddol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3	18
Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol	20
Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol	22
Deilliannau ar gyfer addysg grefyddol	24
Disgrifiadau Lefel Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol	26
Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16	28
Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol	29

Cefndir

Rhaid i bob awdurdod addysg lleol (AAL):

- fabwysiadu maes llafur cytûn lleol ar gyfer addysg grefyddol (AG)
- dechrau adolygu'r maes llafur cytûn lleol o fewn pum mlynedd i'w fabwysiadu neu ers yr adolygiad diwethaf (p'un bynnag a wnaed diwethaf), ac yn dilyn hynny, bob pum mlynedd ar ôl cwblhau adolygiadau pellach.

Disgrifir y gofynion hyn, a'r dulliau gweithredu perthnasol a'r prosesau y dylid eu dilyn yn Neddf Addysg 1996 a Deddf Safonau a Fframwaith Addysg 1998. Bydd gofyn i'r AALLau gyfeirio at y ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol wrth adolygu eu meysydd llafur cytûn lleol.

Pwrpas yr arweiniad

Yn 2001 darparodd ACCAC arweiniad anstatudol i gynorthwyo AALLau wrth iddynt adolygu eu meysydd llafur cytûn lleol. Roedd y ddogfen hon – *Adolygiad o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol: Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn yng Nghymru* – yn darparu disgrifiadau lefel cenedlaethol enghreifftiol, yn argymhell y dylai AALLau ystyried mabwysiadu'r fformat cyffredin a ddefnyddir ar gyfer Rhaglenni Astudio Gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ac yn darparu fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol yn cynnwys Rhaglenni Astudio enghreifftiol.

Mae'r cyngor cyfredol yn adeiladu ar y ddogfen ganllaw flaenorol, a gafodd ymateb cadarnhaol gan CYSAGau ac AALLau, ac mae'n cynnig Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol diwygiedig. Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol diwygiedig yn cynnig cyfle i ddarparu fframwaith asesu cydlynol ar gyfer Cymru gyfan a gwella safonau addysg grefyddol yn genedlaethol. I'r diben hwn mae AALLau a CYSAGau yng Nghymru wedi gohirio cynnal eu hadolygiad bob pum mlynedd er mwyn ystyried mabwysiadu/addasu'r fframwaith diwygiedig hwn gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS). Os caiff ei gymeradwyo gellir ei deilwra ar gyfer maes llafur cytûn lleol AAL.

Datblygiad y ddogfen

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol diwygiedig hwn mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) wedi defnyddio'r un amserlenni a dulliau gweithredu â'r rheiny a weithredwyd yn yr adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r arweiniad wedi cael ei ddatblygu gan athrawon wrth eu gwaith, ymgynghorydd a chynrychiolydd Estyn. Mae'r drafft hwn yn destun ymgynghoriad gydag AALLau, CYSAGau, ysgolion ac eraill ledled Cymru sy'n ymddiddori mewn crefydd.

Addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen

Wrth baratoi'r arweiniad hwn rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r gofyniad statudol i ddarparu addysg grefyddol i blant 5 i 7 oed. Mae ein cyngor ar dudalennau 13–17 yn cyfateb i'r hen Raglen Astudio enghreifftiol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a ddarparwyd gan ACCAC yn 2001, ac yn ei disodli. Hefyd, darparwyd cyngor i blant 3 a 4 oed (gweler tudalen 15).

Wrth ddatblygu'r arweiniad hwn, rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r maes dysgu 'Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd' fel y'i cyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghorol *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant yn y Cyfnod Sylfaen*.

Argymhellir bod AALLau a chynadleddau meysydd llafur cytûn yn ystyried y cyngor a roddir yn y ddogfen hon wrth adolygu eu meysydd llafur cytûn lleol.

Sylwadau ar y cynigion: newidiadau allweddol

Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol diwygiedig – Newidiadau o 2001

- Mae'r fframwaith AG wedi cael ei ddiwygio er mwyn:
 - canolbwyntio ar agweddau ar y pwnc a fydd yn cymell ac yn cynnal diddordeb pob dysgwr
 - gwneud AG yn fwy perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain
 - rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau
 - darparu canllawiau ar gyfer AG yn y Cyfnod Sylfaen
 - estyn y fframwaith i gynnwys Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16
 - darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol.
- Er cysondeb a chynllunio hawdd, mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol wedi cael ei ddiwygio i ddilyn strwythur a chynnwys Gorchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol.
- Mae crynodeb rhagarweiniol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob cyfnod allweddol/cyfnod addysg, yn unol â Gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol.
- Mae mwy o bwyslais ar ystyried y cwestiynau sylfaenol yn y disgrifiadau lefel a'r rhaglenni astudio.
- Mae mwy o bwyslais wedi ei roi ar y sgiliau sydd eu hangen i astudio AG ac mae eu harwyddocâd wedi cael ei gryfhau trwy eu cysylltiad uniongyrchol â'r disgrifiadau lefel a'r tair elfen graidd (Ystyried y cwestiynau sylfaenol; Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion) crefyddol; a Mynegi ymateb personol) sy'n sail i'r holl astudio.
- Mae'r sgiliau a nodwyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Fframwaith Sgiliau 3–19 anstatudol.
- Mae'r ystod (y byd, profiad dynol a chwilio am ystyr) fel y pennir yn y rhaglenni astudio yn cynnig persbectif mwy cyfoes ar astudio AG.
- Achubwyd ar gyfleoedd i gyfeirio mwy at themâu trawsbynciol fel:
 - datblygiad moesol ac ysbrydol
 - iechyd a lles emosiynol
 - cyfle cyfartal
 - dinasyddiaeth weithredol
 - datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
 - paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae'r adran isod yn crynhoi'r gofynion statudol sy'n gymwys i feysydd llafur cytûn lleol. Wrth adolygu eu meysydd llafur cytûn lleol, dylai AALLau a chynadleddau meysydd llafur cytûn gyfeirio'n uniongyrchol at y ddeddfwriaeth briodol a cheisio eu cyngor cyfreithiol ei hun.

Dylai addysg grefyddol, ynghyd â phynciau eraill ar y cwricwlwm, hybu:

'datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac o'r gymdeithas, a pharatoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.'
(Adran 1, Deddf Diwygio Addysg 1988)

Mae datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol, yn arbennig, yn agweddau hanfodol ar addysg grefyddol a dylent fod yn amlwg o fewn meysydd llafur cytûn lleol. Yn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol hwn:

mae'r ysbrydol yn canolbwyntio ar:

- chwilio am ystyr, sy'n mynd y tu hwnt i agweddau corfforol a materol bywyd, ac archwilio ymatebion i Dduw/realiti terfynol a gwirionedd (*y byd*)
- hanfod yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol, sy'n archwilio gwerthoedd cyffredin, hunaniaeth, gwerth personol, creadigrwydd, dychymyg, cariad, ffyddlondeb a daioni (*profiad dynol*)
- twf 'bywyd mewnol', sy'n canolbwyntio ar ddatblygu chwilfrydedd deallus, meddwl agored, emosiwn, myfyrio, greddf a chredoau (*chwilio am ystyr*)

mae'r moesol yn canolbwyntio ar:

- archwilio gwerthoedd ac agweddau cyffredin, sy'n tynnu sylw at wreiddiau crefyddol/diwylliannol a gweithgareddau cymdeithasol/gwleidyddol cyfoes sy'n dylanwadu ar ein dealltwriaeth ac yn ei herio (*y byd*)
- gallu bodau dynol i wneud dewisiadau moesol da neu ddrwg, sy'n canolbwyntio ar ddeall codau moesol, perthnasoedd, cyfrifoldeb, caniatáu amrywiaeth, temtasiwn, pŵer hunanberth a chariad (*profiad dynol*)
- ymateb personol i faterion moesol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu unplygrwydd personol, cydwybod, herio normau personol/cymdeithasol a 'dysgu beth sy'n haeddu parch a beth sydd ddim' (Hans Kung) (*chwilio am ystyr*)

mae'r diwylliannol yn canolbwyntio ar:

- y ffyrdd y mae diwylliant/crefydd wedi dylanwadu ar hanes y byd a phrofiad dynol mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, gan ymchwilio i'r gwahaniaeth rhwng safbwyntiau swyddogol a phersonol (*y byd*)
- yr angen i fodau dynol gael synnwyr o hunaniaeth ddiwylliannol, perthyn a phwrpas, a fu'n amlwg yng Nghymru trwy'r ffordd y mae crefydd a diwylliant wedi cydblethu (*profiad dynol*)
- ymateb personol disgyblion i Gymru aml-ddiwylliannol/aml-ffydd, Ewrop a'r byd (*chwilio am ystyr*)

mae'r meddyliol yn canolbwyntio ar:

- ddatblygu priodweddau deallusol, greddfodol, symbolaidd a beirniadol disgyblion sydd wedi'u nodi'n glir yn adran Sgiliau'r fframwaith

mae'r corfforol yn canolbwyntio ar:

- ddatblygiad gweithredol, defodol, ymatebol, creadigol disgyblion sy'n cael ei hybu yn yr un modd trwy'r fframwaith.

'Bydd pob maes llafur cytûn lleol yn adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain, ar y cyfan, yn rhai Cristnogol ond bydd yn rhoi sylw i ddisgeidiaeth ac ymarferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 19, Adran 375 (3))

Dylid astudio Cristnogaeth ym mhob cyfnod allweddol a'r prif grefyddau eraill fydd y rhai a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.

Dylai'r awdurdod addysg leol a'r gynhadledd maes llafur cytûn benderfynu a yw'n briodol pennu pa brif grefyddau eraill a faint o grefyddau y dylid eu hastudio ym mhob cyfnod allweddol.

'Ni fydd unrhyw faes llafur cytûn yn darparu i addysg grefyddol gael ei rhoi i ddisgyblion mewn ysgol trwy unrhyw gatecism neu fformiwlari sy'n nodweddiadol o enwad crefyddol penodol (ond ni ddylid cymryd bod hyn yn gwahardd darpariaeth o fewn maes llafur ar gyfer astudio catecism neu fformiwlari o'r fath).'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 69 (2), ac Atodlen 19: paragraff 2(5))

Rhaid i faes llafur cytûn lleol fod yn anenwadol, ond ni waherddir addysgu am gatecism neu fformiwlari penodol. Gall athrawon ddangos y gwahaniaethau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion y traddodiadau crefyddol a astudir, ond rhaid osgoi hybu safbwyntiau enwadol penodol.

'1. Bydd y cwricwlwm ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn cynnwys cwricwlwm sylfaenol sy'n cynnwys:
a) darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol i bob disgybl cofrestredig yn yr ysgol (yn unol â darpariaeth Atodlen 19 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (c.31) fel y bo'n gymwys i'r ysgol)...'

(Deddf Addysg 2002, Adran 101 (1)(a))

Rhaid i faes llafur cytûn lleol wneud darpariaeth briodol ar gyfer pob disgybl cofrestredig rhwng 5 ac 19 oed.

Yn achos addysg grefyddol Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, gall meysydd llafur cytûn ddarparu rhaglenni astudio penodol a/neu argymell cyrsiau penodol a allai arwain at gymwysterau allanol. (Am argymhellion gweler tudalennau 28–31.)

'Mae'r cwricwlwm ar gyfer ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir yn bodloni gofynion yr adran hon os yw'n gwricwlwm cytbwys ac eang sy'n:

(a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac o'r gymdeithas...'

(Deddf Addysg 2002, Adran 99 (1)(a))

'Nid yw Adran 101 Is-adran (1)(a) Deddf Addysg 2002 (uchod) yn gymwys:

(a) mewn perthynas â dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd, neu

(b) yn achos ysgol arbennig a gynhelir (gwneir darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol mewn ysgolion arbennig gan reoliadau dan adran 71(7) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (c.31)).'

(Deddf Addysg 2002, Adran 101, adran 2)

Mae hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn ofyniad statudol i blant 3 a 4 oed. Dylai'r AALLau a'r CYSAGau ddarparu arweiniad anstatudol i athrawon er mwyn hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol trwy 'Bobl, credoau a chwestiynau'. Bydd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer adeiladu addysg grefyddol statudol i blant 5 oed. (Am argymhellion gweler tudalennau 13–17.)

Cyfrifoldebau ysgolion

Dan ofynion deddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n ymwneud â hil, rhyw ac anabled, mae dyletswydd gan ysgolion yng Nghymru i ddysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol i:

- ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hybu agweddau cadarnhaol
- hybu cyfle cyfartal ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Dylai pob dysgwr ddatblygu synnwyr o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n derbyn ac yn parchu pobl eraill. Dylai ysgolion gynllunio ym mhob pwnc i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn cynnig modd i ddysgwyr gymryd rhan yn ein cymdeithas aml-ethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu dulliau sy'n cynnal hunaniaethau ethnig a diwylliannol pob disgybl ac yn adlewyrchu amryw o bersbectifau, er mwyn cynnwys y dysgwyr a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol a darparu cwricwlwm cynhwysol a fydd yn cynnig cyfleoedd i **bob** dysgwr gyrraedd eu potensial llawn yn yr ysgol a'u paratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd.

Bydd yn ofynnol i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau profiadau dysgu perthnasol a hygyrch i bawb. I ddysgwyr ag anabledau yn arbennig, dylent wneud addasiadau rhesymol er mwyn:

- gwella mynediad i'r cwricwlwm
- cynyddu mynediad i addysg a gwasanaethau cysylltiedig
- darparu gwybodaeth mewn amryw o fformatau.

Dylai ysgolion ddarparu mynediad i offer a dulliau priodol gyda gweithgareddau eraill/wedi'u haddasu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cymryd rhan llawn gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cyfrwng cyfathrebu heblaw siarad.

I ddysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w cynorthwyo i ddysgu Cymraeg a/neu Saesneg llafar ac ysgrifenedig trwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion sicrhau bod y dysgwyr yn cael deunyddiau sy'n briodol i'w gallu a'u haddysg/profiad blaenorol ac sy'n estyn eu datblygiad iaith ac yn eu herio yn wybyddol.

Hawl pob dysgwr

Dylai ysgolion yng Nghymru addysgu pob rhaglen astudio a fframwaith mewn ffyrdd sy'n briodol i alluoedd ac aeddfedrwydd datblygedig y dysgwyr. Dylai ysgolion sicrhau bod y dysgwyr yn cael defnyddio'r systemau cyfathrebu sydd orau ganddynt i sicrhau'r mynediad gorau i'r cwricwlwm a dylent gydnabod gwerth iaith y cartref wrth ddysgu. Dylai'r dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau er mwyn estyn eu dysgu.

Er mwyn i **bob** dysgwr gael mynediad i'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel briodol, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau/cyfnodau allweddol cynharach neu ddiweddarach o fewn fframwaith y cwricwlwm. Dylai ysgolion gyflwyno deunyddiau mewn ffyrdd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr er mwyn eu cynnwys yn y broses ddysgu.

I ddysgwyr sy'n gweithio'n **sylweddol** is na'r lefelau disgwyliedig mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion gynllunio eu cwricwlwm i ateb anghenion blaenoriaethol eu dysgwyr. Mae digon o hyblygrwydd wedi'i gynnwys o fewn y cwricwlwm i ateb anghenion pob dysgwr heb fod angen datgymhwyso. Os nad yw'n bosib astudio'r **holl** raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gall y gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys gael ei fodloni trwy ddefnyddio'r ystod lawn o bynciau fel cyd-destunau ar gyfer dysgu.

I ddysgwyr sy'n gweithio ar lefelau uwch, gellid cynnwys mwy o her trwy gyflwyno deunyddiau mewn ffyrdd sy'n estyn ehangder a dyfnder yr astudio. Gellir cynyddu'r lefel anhawster hefyd trwy ddatblygu a chymhwyso sgiliau cyfathrebu, rhif, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a meddwl ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunyddiau (sydd i'w hastudio mewn dyfnder neu'n amlinellol) a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon, perthnasol ac ysgogol i'w dysgwyr
- ateb anghenion penodol eu dysgwyr a gwella eu datblygiad cyffredinol.

Datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae Fframwaith Sgiliau anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn sgiliau meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amryw o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn addysg grefyddol, bydd disgyblion yn datblygu sgiliau meddwl trwy amrywiaeth o weithgareddau. Bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy brofiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd. Byddant yn archwilio ac yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a astudiant. Byddant yn cynllunio ymchwiliadau trwy gasglu a defnyddio ystod o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol ac yn eu defnyddio i werthuso a chyfiawnhau eu hymatebion personol. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau beirniadol a chreadigol er mwyn datblygu syniadau ac archwilio a herio dehongliadau, rhagdybiaethau a phosibiliadau.

Cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn addysg grefyddol, bydd disgyblion yn datblygu sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach trwy amrywiaeth o weithgareddau. Bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau ac yn cyfleu syniadau ac yn mynegi eu teimladau a'u barn eu hunain gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau fel y bo'n briodol i'r gynulleidfa a phwrpas y gweithgaredd. Byddant yn gwrando'n ofalus ar eraill, gan nodi cryfderau a gwendidau safbwyntiau neu drywydd rhesymu. Byddant yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen/ysgrifennu yn dibynnu ar yr ymchwiliad neu'r gweithgaredd dan sylw ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o iaith grefyddol/symbolaidd gyda mwy o ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ddehongliadau posib.

TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **greu, cyflwyno, darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn addysg grefyddol, bydd disgyblion yn defnyddio TGCh i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan ddefnyddio, er enghraifft, e-bost a PowerPoint; i gyflwyno gwybodaeth mewn amryw o fformatau gan ddefnyddio prosesu geiriau a graffeg; i ganfod a datblygu gwybodaeth ar y rhyngwyd a ffynonellau eraill gan gynnwys CD-ROM ac ati; i gynorthwyo cyflwyniadau llafar a chreu syniadau a strategaethau i wella effaith eu gwaith.

Rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno canlyniadau**.

Mewn addysg grefyddol, bydd disgyblion yn datblygu sgiliau cymhwyso rhif trwy ddefnyddio gwybodaeth fel trefnu digwyddiadau mewn amser, mesur amser trwy galendrau crefyddau amrywiol, gan gyfrifo canrannau degymiad ac ystyried arwyddocâd rhif o fewn crefyddau. Byddant yn dehongli canlyniadau/data ac yn cyflwyno casgliadau o holiaduron, graffiau a ffurfiau eraill o ddata er mwyn tynnu casgliadau a gofyn cwestiynau pellach am faterion sy'n ymwneud â chrefydd a'r byd.

Y Cwricwlwm Cymreig ac addysg bersonol a chymdeithasol ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar eu profiadau yn y Cyfnod Sylfaen a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, a'u datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles.

Y Cwricwlwm Cymreig

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Bydd addysg grefyddol yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy alluogi disgyblion i werthfawrogi arwyddocâd, gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog a chyfansoddiad aml-ffydd deinameg Cymru yn y gorffennol a'r presennol. Trwy'r iaith Gymraeg bydd disgyblion yn cael mewnwelediad dyfnach i'w treftadaeth grefyddol a thrwy adnoddau addysgu deinamig (gan gynnwys ymweliadau, ymwelwyr, digwyddiadau lleol, safleoedd o ddiddordeb crefyddol, mentrau busnes lleol ac elusennau) cânt eu cyflwyno i syniadaeth athronyddol, foesegol a diwinyddol heriol yr oes sydd ohoni. Bydd profiad disgyblion sy'n byw yng Nghymru yn darparu'r cefndir iddynt ofyn cwestiynau sylfaenol am ystyr a phwrpas bywyd ac effaith ac arwyddocâd crefydd a syniadaeth grefyddol ar gymdeithas yr unfed ganrif ar hugain, gan herio cwestiynau am ein cyfoeth economaidd a chyfrifoldeb Cymru am ei dinasyddion ei hun a'r rheiny mewn mannau eraill o'r byd, a'i pherthynas â nhw.

Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr hybu eu hiechyd a'u lles a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Bydd addysg grefyddol yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy alluogi astudiaethau'r disgyblion i gynnig gwybodaeth a datblygu eu teimladau a'u barnau crefyddol/anghrefyddol eu hunain. Bydd addysg grefyddol yn canolbwyntio ar feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o grefyddau'r byd gan archwilio'r effaith a gânt ar y penderfyniadau a wneir a'r ffyrdd o fyw a fabwysiadir gan unigolion a chymdeithasau o fewn diwylliannau amrywiol ledled y byd. Anogir disgyblion i ddatblygu parch at deimladau a barnau eraill, a'u goddef, gan ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb, cyfiawnder, heddwch, da a drwg. Dylid annog disgyblion i werthuso'r priodweddau hyn eu hunain a ffurfio barn briodol. Bydd disgyblion yn canolbwyntio ar awydd nifer o grefyddau i feithrin cynaladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang, gan ysgogi disgyblion i ymateb yn bersonol. Bydd addysg grefyddol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion archwilio'r dimensiwn ysbrydol er mwyn iddynt allu cydnabod arwyddocâd yr anfaterol i bobl grefyddol ac anghrefyddol gan eu hannog i gwestiynu gwerthoedd ac ystyron eu bywydau a bywyd pobl eraill.

O fewn y Cyfnod Sylfaen bydd plant yn chwilfrydig ac wrth reswm yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Bydd plant yn ymddiddori yn eu hunain, eu teuluoedd, pobl eraill a rhyfeddodau'r byd. Bydd y diddordeb hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'u datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol a gellir ei feithrin trwy brofiadau sy'n gysylltiedig â 'Phobl, credoau a chwestiynau'. Bydd y diddordeb a'r brwdfrydedd naturiol hwn yn golygu y bydd plant eisiau cael, yn ystod y Cyfnod Sylfaen, wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol sy'n darparu'r sail hanfodol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2. Trwy weithgareddau ymarferol, integredig sy'n cynnal diddordeb y plant, gallant ddysgu mwy am eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch a datblygu dealltwriaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol gyfoethog yng Nghymru. Bydd gwybodaeth am eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain (trwy storïau a chwarae rôl) yn eu cynorthwyo i ddeall mwy am eu hunain ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth a pharch at safbwyntiau eraill, a all helpu datblygu goddefgarwch ac agweddau cyfrifol. Trwy chwarae bydd plant yn datblygu eu syniadau, barnau a theimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd a all helpu lliwio eu barn o'r byd, eu gobeithion a'u breuddwydion. Wrth fynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain gallant adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Sgiliau

Er mwyn profi'r byd cyfarwydd trwy ymchwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, dylid annog plant i fod yn chwilfrydig a darganfod trwy:

- archwilio ac arbofi
- meddwl am gwestiynau a'u gofyn a gwrando ar yr atebion
- gwrando ar syniadau pobl eraill
- adnabod yr hyn y maent eisiau ei ddarganfod a sut i'w wneud
- meddwl am beth allai ddigwydd os ...
- bod yn ymwybodol o gyraeddiadau dynol a'r 'syniadau mawr' sydd wedi llunio'r byd
- ymchwilio ffynonellau a materion
- gwneud arsylwadau a chadw cofnodion
- gwneud cymariaethau ac adnabod nodweddion tebyg a gwahanol
- didoli a grwpio gwybodaeth, gan ddefnyddio TGCh ar adegau
- gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- gwneud cysylltiadau o fewn elfennau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- meddwl yn greadigol ac yn ddychmygol
- cyfleu arsylwadau

- disgrifio'r hyn a ddarganfuon nhw a chynnig esboniadau syml
- mynegi eu barnau a'u teimladau eu hunain a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill
- defnyddio a dod yn gyfarwydd â geiriau a chymalau cyffredin ar gyfer eu byd
- myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill a'i werthuso.

Ystod

Trwy'r Cyfnod Sylfaen dylai plant gael cyfleoedd i:

- archwilio ystod eang o symbyliadau
- defnyddio adnoddau o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys ffurfiau rhyngweithiol
- ymchwilio amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored gan gynnwys amodau naturiol wrth iddynt godi
- cymryd rhan mewn gwahanol fathau o chwarae ac ystod o weithgareddau wedi'u cynllunio, gan gynnwys rhai a gychwynnir gan y plentyn a rhai sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol
- gweithio ar eu pennau eu hunain ac mewn grwpiau bach a mawr.

Pobl, credoau a chwestiynau

Mae 'Pobl, credoau a chwestiynau' yn ymwneud â'r profiadau sy'n codi'n naturiol trwy 'Wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd' a meysydd dysgu eraill yn y Cyfnod Sylfaen. Dylid gwneud cysylltiadau â meysydd dysgu eraill lle'n bosib a dylid canolbwyntio'n benodol ar:

- storïau a gweithgareddau sy'n darparu mewnwelediad i grefydd a phobl grefyddol
- sut mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl, a'u harwain yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar yr ysbrydol a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach
- cwestiynau am gred a gweithred sy'n codi o'r storïau a'r gweithgareddau
- arwyddion, symbolau a delweddau (gan gynnwys arteffactau) sy'n darparu gwahanol fathau o ystyr
- eu hymatebion personol i gwestiynau crefyddol a moesol
- rhyfeddod y byd a sut a pham y mae crefyddau'n dangos pryder/gofal/cyfrifoldeb am bethau byw a'r byd naturiol
- cwestiynau crefyddol a moesol er mwyn iddynt allu mynd ymlaen i ofyn ac ystyried cwestiynau mwy cymhleth am y profiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd.

Bydd y Cyfnod Sylfaen yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant ar draws pob maes dysgu ac yn fwy penodol trwy archwilio 'Pobl, credoau a chwestiynau'.

Pobl, credoau a chwestiynau i blant tri a phedwar oed

Dylai maes llafur cytûn lleol ddarparu hawl anstatudol i blant 3 a 4 oed sy'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu darpariaeth statudol i blant 5–7 oed. Yn 3–4 oed bydd plant yn canolbwyntio ar storïau diwylliannol a thraddodiadol a chael profiadau ymarferol sy'n ymwneud ag ymdrech ysbrydol a moesol. Bydd y storïau a'r profiadau hyn yn annog plant i fod yn ymwybodol o'r canlynol a gofyn cwestiynau am:

Eu hunain

- eu cartrefi, eu teuluoedd a'u profiadau er mwyn archwilio eu hunaniaeth (*gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig, amrywiaeth diwylliannol*)
- eu hoffterau, eu cas bethau a'u teimladau (*gan gynnwys gobeithion, breuddwydion, barnau a synnwyr o hwyl*)
- eu rôl a'u lle yn y gymuned (*fel aelod o'u teulu, gweithgareddau y tu allan i'r ysgol*)
- y dewisiadau a wnânt (*rhannu, caredigrwydd, ymddygiad*)
- ystyr ysbrydol/moesol dyfnach a fynegir yn storïau, cerddi, arteffactau, celf, symudiad, defodau a dathliadau (*pen-blwyddi, Dydd Gŵyl Dewi, storïau traddodiadol am bobl sy'n helpu eraill, delio ag adegau hapus a thrist*)

Pobl eraill

- cartrefi, teuluoedd a phrofiadau pobl eraill er mwyn archwilio nodweddion tebyg a gwahanol yn y ffordd o fyw a thraddodiadau (*dathliadau a thraddodiadau teuluol*)
- pobl arbennig a phobl sy'n eu helpu (*storïau am bobl ddylanwadol yn y gorffennol a'r presennol fel Dewi Sant, eu teulu, athrawon a phobl yn y gymuned*)
- hoffterau, cas bethau a theimladau (*gan gynnwys rhannu gobeithion, breuddwydion, barnau a synnwyr o hwyl gydag eraill*)
- rôl a lle pobl yn y gymuned (*fel aelodau o deuluoedd a grwpiau*)
- penderfyniadau y bydd pobl eraill yn eu gwneud (*rheolau, arferion, canlyniadau dewis, fel rhan o gymuned*)
- rhesymau pam y bydd pobl eraill yn mynegi empathi ysbrydol/moesol dyfnach at bobl eraill (*archwilio pam y bydd pobl yn helpu eraill yn eu gwaith a'u hamser hamdden*)
- yr angen i barchu/herio eu syniadau/credoau eu hunain a rhai pobl eraill (*gofyn cwestiynau, rhannu syniadau a barnau*)

Pethau byw

- y ffyrdd y byddan nhw ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol (*bod yn gyfrifol am anifeiliaid/planhigion, gofyn cwestiynau a rhannu barn*)
- cyfrifoldeb/ailgylchu/pryder byd-eang am y byd (*darganfod sut y gall pobl wneud gwahaniaeth*)
- parchedig ofn/rhyfeddod (*ymchwilio natur, y byd naturiol a'r tymhorau*).

Pobl, credoau a chwestiynau i blant pump i saith oed

O fewn addysg grefyddol yn 5–7 oed, bydd plant (yn ogystal â'r ysbrydol, moesol a diwylliannol) yn canolbwyntio ar y ffordd y mae storïau a gweithgareddau crefyddol penodol yn adeiladu ar brofiad blaenorol.

Trwy ddatblygu eu sgiliau ymholi, ymchwilio ac arbrofi ar draws pob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, dylai plant gael cyfleoedd i baratoi ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 trwy ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

Eu hunain

- eu cartrefi, eu teuluoedd a'u profiadau er mwyn archwilio eu hunaniaeth a pherthyn (*profiadau personol o wyliau, dathliadau, defodau newid byd gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig, amrywiaeth diwylliannol*)
- eu hymatebion personol (*mewn adegau o lawenydd a thristwch, eu gobethion, breuddwydion, barnau a synnwyr o hwyl*)
- eu rôl a'u lle yn y gymuned (*fel aelod o'u teulu, gweithgareddau grŵp, gwaith elusennol*)
- y penderfyniadau a wnânt a'r canlyniadau sy'n dilyn (*ymddygiad, dewis, agweddau*)
- ystyr ysbrydol/moesol dyfnach a fynegir yn y storïau, cerddi, arteffactau, celf, symudiad, defodau a dathliadau (*storïau crefyddol, delio ag adegau hapus a thrist, holi am y cwestiynau mawr*)

Pobl eraill

- cartrefi, teuluoedd a phrofiadau pobl eraill er mwyn archwilio nodweddion tebyg a gwahanol yn y ffordd o fyw a thraddodiadau (*profiad o wyliau crefyddol, addoli, rheolau, bwyd*)
- pobl arbennig a phobl sy'n eu helpu (*storïau am Iesu a phobl grefyddol ddylanwadol eraill yn y gorffennol a'r presennol*)
- ymatebion personol (*gan gynnwys rhannu teimladau, syniadau, profiadau, barnau a synnwyr o hwyl gydag eraill*)
- rôl a lle pobl yn y gymuned (*fel aelodau o deuluoedd, grwpiau crefyddol, arweinwyr crefyddol lleol*)
- penderfyniadau y bydd pobl eraill yn eu gwneud a'r canlyniadau sy'n dilyn (*rheolau, arferion, dewisiadau, bod yn rhan o gymuned*)

- rhesymau pam y bydd pobl eraill yn mynegi empathi ysbrydol/moesol dyfnach at bobl eraill (*archwilio pam y bydd pobl yn helpu eraill yn eu gwaith a'u hamser hamdden – ydy eu credoau yn dylanwadu ar eu bywydau?*)
- yr angen i barchu/herio eu syniadau/credoau eu hunain a rhai pobl eraill (*gofyn cwestiynau, rhannu syniadau a barnau*)

Pethau byw

- y ffyrdd y byddan nhw ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol (*bod yn gyfrifol am anifeiliaid/planhigion, gofyn cwestiynau a rhannu barn*)
- cyfrifoldeb/ailgylchu/pryder byd-eang am y byd (*darganfod sut y gall pobl wneud gwahaniaeth*)
- parchedig ofn/rhyfeddod (*ymchwilio natur, y byd naturiol a'r tymhorau*).

Yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg dylai plant ehangu eu sgiliau hefyd er mwyn iddynt allu dechrau:

- datblygu mewnwelediad i grefydd a phobl grefyddol
- deall am gred a gweithred
- cydnabod a gwerthfawrogi sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl, a'u harwain yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais ar yr ysbrydol a phrofiad crefyddol
- gofyn cwestiynau a chodi materion crefyddol a moesol sy'n fwyfwy cymhleth am y profiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd.

Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod disgyblion o'r byd a'r profiad dynol. Mae hyn yn eu hysgogi i ofyn ac ymchwilio cwestiynau dwfn sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan felly adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy weithgareddau ysgogol ymarferol ac archwilio crefydd yn eu hardal leol yng Nghymru ac ym Mhrydain bydd disgyblion yn datblygu sgiliau ac yn casglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am rai cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl yn helpu datblygu goddefgarwch a pharch, ac yn helpu meithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang. Trwy gyfranogi'n weithredol bydd disgyblion yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol i'w cynorthwyo wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas. Bydd disgyblion yn mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain, adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd addysg grefyddol yn ysgogi disgyblion i feddwl drostynt eu hunain er mwyn datblygu dealltwriaeth o fywyd, y byd, a chwilio am ystyr sy'n eu hysbrydoli i drawsffurfio eu hunain yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn fyd-eang, gan felly adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Trwy wneud gweithgareddau ymarferol, cynnal trafodaethau ysgogol ac ymchwiliadau personol o grefydd yn eu hardal leol yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang trwy'r cyfryngau, bydd disgyblion yn gallu cymhwyso a gwerthuso eu mewnwelediadau ynghylch rhai cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a thrwy wneud hynny byddant yn cael cyfleoedd i feddwl yn greadigol a gofyn cwestiynau dyfnach a mwy heriol. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) ac effaith crefydd a syniadau crefyddol yn genedlaethol ac yn fyd-eang yn meithrin mwy o ddealltwriaeth o arwyddocâd crefydd a'i bwysigrwydd o ran hybu cydlynid cymdeithasol, sefydlogrwydd, dinasyddiaeth fyd-eang a chynladwyedd. Trwy brofiadau ysgogol bydd disgyblion yn myfyrio ar ddimensiynau ysbrydol a moesol bywyd gan gydnabod pwysigrwydd yr anfaterol i bobl grefyddol ac anghrefyddol. Bydd disgyblion yn cael cyfleoedd i fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u barnau eu hunain wrth iddynt chwilio am ystyr gyda digon o symbyliadau i ysbrydoli a hybu bod yn agored i syniadau newydd.



Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy'r **dair elfen graidd rhyngberthynol** y pwnc, sef:

- **Y cwestiynau sylfaenol** – sy'n codi trwy brofiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd
- **Credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion)** – storïau crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol gwahanol
- **Mynegiant ac ymateb personol** – cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau i brofiadau'r disgyblion eu hunain a chynnig modd datblygu mewnwelediadau personol.

Mae'r elfennau craidd hyn yn cynnig gwybodaeth ar gyfer ei gilydd a dylid cyhmwysu'r tair elfen i'r ystod a astudir.

Sgiliau

Ystyried y cwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- gofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- archwilio ystod o dystiolaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn ystyried y materion sy'n codi
- defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau yn effeithiol er mwyn cyflwyno ac ategu dadleuon a barnau
- datblygu esboniadau eraill ac awgrymu posibiliadau newydd
- ymchwilio gan gadw meddwl agored a bod yn barod i dderbyn her yn dilyn gwybodaeth neu dystiolaeth newydd.

Ystod

Mae'r ystod yn disgrifio cyd-destun/cwmpas yr astudio sy'n gallu ychwanegu her i bynciau traddodiadol, rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i gwestiwn sylfaenol penodol a/neu ysgogi meddwl am ystod o gwestiynau rhyngberthynol. Ni ddylid ystyried bod yr ystod yn rhestr o gynnwys/pynciau i'w hastudio. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy'r canlynol:

Y byd

- **dechreuad a phwrpas bywyd** – dehongliadau o ddechreuad y byd/bywyd a sut y maent yn dylanwadu ar fywydau pobl, e.e. *syniadau am y cread, cyfrifoldeb ac ystyr*
- **y byd naturiol a phethau byw** – sut y gall crefyddau ddangos pryder a chyfrifoldeb, e.e. *stewardiaeth, cynaladwyedd, bywyd fel rhodd ac ati*
- **taith bywyd** – y camau amrywiol a sut y cânt eu cydnabod a'u dathlu mewn crefydd, e.e. *defodau newid byd, dathliadau ac ymatebion i ddigwyddiadau naturiol*



Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- galw i gof, disgrifio ac esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol
- gwneud ac ymchwilio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol
- disgrifio ac esbonio effaith crefydd ar fywydau credinwyr
- disgrifio ac esbonio'r nodweddion tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws crefyddau
- dadansoddi a dehongli'r haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storïau, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymateb personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- mynegi a dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u barnau eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- dangos sut y mae'r hyn y maent wedi'i ddysgu wedi cael effaith ar eu safbwyntiau/syniadau
- ystyried, gwerthfawrogi a pharchu safbwyntiau eraill
- cydnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod o iaith grefyddol yn addas
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i gael gwybodaeth a chyfleu cysyniadau crefyddol.



Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – sut mae crefyddau yn deall bodolaeth ddynol, e.e. *delwedd o Dduw, unigrwydd a'r ysbrydol*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut y gall syniadau a chredoau crefyddol ddylanwadu ar ymatebion i fywyd a marwolaeth, e.e. *y ffyrdd y gall crefydd ddylanwadu ar fywydau a/neu agweddau pobl a'u newid*
- **perthyn** – synnwyr o hunaniaeth ac ymrwymiad a rennir gan gredinwyr lleol, e.e. *dathliadau crefyddol yn y cartref ac yn y gymuned leol*
- **awdurdod a dylanwad** – gwahanol fathau o awdurdod, e.e. *storïau crefyddol, testunau cysegredig, arweinwyr crefyddol hanesyddol a chyfoes, a chodau crefyddol sy'n arwain ac yn dylanwadu ar fywydau pobl*



- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – y pwysigrwydd y mae crefydd yn ei roi ar berthnasoedd personol, e.e. *pwysigrwydd rheolau, cymuned grefyddol*

Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – syniadau am fyfyrio ac am natur ysbrydol bywyd a'i fod yn fwy na rhywbeth materol/corfforol, e.e. *parchedig ofn a rhyfeddod mewn crefydd*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – sut y bydd pobl yn datblygu dealltwriaeth o brofiad crefyddol/ysbrydol, e.e. *perthynas â Duw, ffordd o fyw, ymrwymiad, addoli, gweddïo, cerddoriaeth, dawns, myfyrio, ymprydio.*

Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy'r **dair elfen graidd ryngberthynol** y pwnc, sef:

- **Y cwestiynau sylfaenol** – sy'n codi trwy brofiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd
- **Credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion)** – storiâu crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol gwahanol
- **Mynegiant ac ymateb personol** – cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau i brofiadau'r disgyblion eu hunain a chynnig modd datblygu mewnwelediadau personol.

Mae'r elfennau craidd hyn yn cynnig gwybodaeth ar gyfer ei gilydd a dylid cymhwyso'r tair elfen i'r ystod a'r cyd-destun a astudir.

Ystod

Mae'r ystod yn disgrifio cyd-destun/cwmpas yr astudio sy'n gallu ychwanegu her i bynciau traddodiadol, rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i gwestiwn sylfaenol penodol a/neu ysgogi meddwl am ystod o gwestiynau rhyngberthynol. Ni ddylid ystyried bod yr ystod yn rhestr o gynnwys/pynciau i'w hastudio. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy'r agweddau canlynol:

Y byd

- **dechreuad a phwrpas bywyd** – dadleuon cyfoes am y ffordd y mae crefyddau'n ystyried y byd naturiol a gwerth pethau byw, e.e. *cread, cyfrifoldeb, perthynas rhwng y byd naturiol, bodau dynol a Duw; sancteiddrwydd bywyd*

Sgiliau

Ystyried y cwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- gofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- tynnu ar eu profiadau eu hunain ac ar amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol gwybodus eraill, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol
- defnyddio technegau datrys problemau, meddwl beirniadol, creadigol a greddfod i archwilio rhagdybiaethau, posibiliadau/esboniadau
- ffurfio dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i ddehongliadau gwahanol.

- **y byd naturiol a phethau byw** – sut mae crefyddau unigol yn cydnabod pwysigrwydd bod yn gyfrifol am y byd naturiol a phethau byw a rhoi eu credoau ar waith trwy weithredu, e.e. *cynladwyedd, stiwardiaeth, bywyd fel rhodd*
- **taith bywyd** – sut mae crefydd yn deall rolau a chyfrifoldebau yng nghamau gwahanol bywyd, e.e. *rôl a chyfrifoldebau o fewn teulu/cymuned*


Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – ystyried natur dynoliaeth a'i goblygiadau, e.e. *bodau dynol fel mwy na dim ond anifeiliaid, bodau dynol fel bodau call/cydwytbodol, bodau dynol yn nelwedd Duw, rhyddid/cyfrifoldeb*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut mae crefydd yn darparu mewnwelediad i gwestiynau o wirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth, e.e. *bywyd/marwolaeth/bywyd tragwyddol, da/drwg/dioddefaint/gobaith ac ati*




Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion) crefyddol


Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- galw i gof, disgrifio ac esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a ymchwilir
- gwneud ac ymchwilio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol er mwyn dangos dealltwriaeth o ystod o syniadau/cysyniadau crefyddol
- disgrifio ac esbonio'r nodweddion tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws crefyddau
- esbonio effaith crefydd ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan ddefnyddio ystod o ddehongliadau 
- dadansoddi a dehongli'r haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storïau, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymateb personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- cyfleu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadl resymegol, barn personol a syniadau mewn amryw o ffyrdd creadigol, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- esbonio sut y gallai'r hyn y maent wedi'i ddysgu am brofiad crefyddol/ysbrydol a gwneud penderfyniadau moesol berthnasu â'u bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu a gwerthuso safbwyntiau eraill, gan gydnabod y nodweddion tebyg a gwahanol rhyngddynt â'u safbwyntiau nhw
- cydnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod o iaith grefyddol yn addas
- defnyddio TGCh a dulliau i gael gwybodaeth a chyfleu cysyniadau crefyddol. 

- **perthyn** – sut mae unigolion, cymunedau lleol a chymdeithas yn mynegi hunaniaeth grefyddol ac yn dangos ymrwymiad, e.e. *addoli, dathlu, ffordd o fyw ac ati* 
- **awdurdod a dylanwad** – materion sy'n ymwneud â chyfleu awdurdod crefyddol gan gynnwys syniadau am y datguddiad, doethineb a gwirionedd/dehongliad, e.e. *storïau crefyddol, testunau cysegredig, sylfaenwyr crefyddol, arweinwyr hanesyddol a chyfoes*
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – y ffyrdd y mae crefyddau'n dangos sut y dylai pobl fyw eu bywydau, meithrin a chynnal perthnasoedd a gwneud penderfyniadau moesol anodd, e.e. *cywir/anghywir, rheolau ar gyfer byw i unigolion/cymunedau/cymdeithas, cyfrifoldeb/gwerthoedd, cyfiawnder/cydraddoldeb, goddefgarwch/parch, gwrthdaro/cymodi*

Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – materion, syniadau a mynegi bywyd fel rhywbeth anfaterol/trosgynnol, e.e. *natur Duw/enaid, dadleuon cyfoes am dystiolaeth dros fodolaeth Duw, profiad crefyddol/dimensiynau ysbrydol y profiad dynol a gwirionedd/ystyr/dehongliad*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – sut mae pobl yn datblygu, dehongli a gweithredu ar eu profiad crefyddol/ysbrydol, e.e. *perthynas â Duw ac ymateb i Dduw; ffordd o fyw/aberth; effaith crefyddol/ymrwymiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn ac ar draws crefydd.*

Deilliannau ar gyfer addysg grefyddol

Mae'r deilliannau canlynol ar gyfer addysg grefyddol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio yn is na Lefel 1. Mae deilliannau 1, 2 a 3 addysg grefyddol yn cydreddeg â deilliannau 1, 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen.

Mae deilliannau addysg grefyddol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar ddeiliant penodol. Wrth benderfynu ar ddeiliant cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Deiliant 1

Bydd disgyblion yn adnabod eu hunain, pobl gyfarwydd, lleoedd a gwrthrychau mewn lluniau/storïau ac yn dangos gwybodaeth o arferion bob dydd. Bydd disgyblion yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu arsylwadau am storïau ac arteffactau crefyddol cyfarwydd. Gydag anogaeth, bydd disgyblion yn dechrau cyfleu sut y teimlant ac am brofiadau fel ymweliadau ag adeiladau arbennig, gwyliau a dathliadau.

Deiliant 2

Bydd disgyblion yn ymateb i gwestiynau penagored am eu teimladau a'u profiadau ('beth?', 'ble?'). Byddant yn cynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau/rhagfynegiadau ar adegau. Bydd disgyblion yn trin ac yn archwilio arteffactau ac yn dangos peth gwybodaeth o bobl, llyfrau, a manau addoli arbennig. Byddant yn ymateb i storïau a digwyddiadau, yn y gorffennol a'r presennol. Byddant yn dechrau uniaethu â theimladau eraill fel y cânt eu portreadu mewn storïau a digwyddiadau crefyddol yn y gorffennol a'r presennol.

Deiliant 3

Gall disgyblion gofio digwyddiadau o bwys yn y gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Bydd disgyblion yn cynnig syniadau ac arsylwadau annibynnol ynghylch pethau sydd o bryder iddynt yn eu bywydau. Bydd disgyblion yn cyfleu eu gwybodaeth gynyddol o storïau, digwyddiadau a gwrthrychau crefyddol ac yn dangos peth gwerthfawrogiad bod y rhain yn wahanol i'r norm. Bydd disgyblion yn fwyfwy ymwybodol a sensitif i anghenion eraill ac yn deall y dylai pethau byw gael eu trin gyda pharch a phryder.



Disgrifiadau Lefel Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

Dylid darllen pob datganiad o fewn y lefelau gan eu bod yn berthnasol i Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a ddangosir o fewn y maes llafur cytûn lleol penodol.

Lefel 1

Bydd disgyblion yn siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Byddant yn galw i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir. Byddant yn ymwybodol i raddau fod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig. Byddant yn cydnabod bod eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau yn gallu bod yn debyg, neu'n wahanol i rai pobl eraill. Byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml mewn modd addas i fynegi eu syniadau ar adegau.

Lefel 2

Bydd disgyblion yn gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac yn awgrymu rhai atebion. Byddant yn galw i gof ac yn cyfathrebu'n syml rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir. Byddant yn awgrymu, mewn termau syml, pam bod yr agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl. Byddant yn siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill. Byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas.

Lefel 3

Bydd disgyblion yn trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barn eu hunain. Byddant yn disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir. Byddant yn disgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Byddant yn disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Byddant yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol, ac yn defnyddio geirfa grefyddol yn addas.

Lefel 4

Bydd disgyblion yn trafod eu hymatebion nhw ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Byddant yn disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a ymchwilir. Byddant yn rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y bydd yr agweddau hyn yn effeithio ar fywydau credinwyr ac yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws crefyddau. Byddant yn esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill. Byddant yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas.

Lefel 5

Bydd disgyblion yn mynegi ac yn cyfiawnhau syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol, yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain. Byddant yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion a astudir, gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr. Byddant yn esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Lefel 6

Bydd disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus a'u profiadau eu hunain i gasglu tystiolaeth a datblygu ymatebion priodol i gwestiynau sylfaenol. Byddant yn defnyddio'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a ymchwilir i ddangos dealltwriaeth o grefydd ac esbonio gwahanol safbwyntiau crefyddol. Byddant yn esbonio'r berthynas rhwng eu credoau a'u gweithrediadau eu hunain. Byddant hefyd yn esbonio'r berthynas rhwng credoau a gweithrediadau pobl eraill. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o symbolaeth ac iaith symbolaidd.

Lefel 7

Bydd disgyblion yn ystyried cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol o ystod o safbwyntiau crefyddol ac yn dechrau dod i gasgliadau rhesymegol. Byddant yn cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol er mwyn cyfiawnhau amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac ymarferion ac yn esbonio yn fanwl gywir y rhesymau dros yr ystod o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol. Byddant yn ystyried goblygiadau eu credoau a'u gweithrediadau eu hunain, ac yn cymharu'r rhain gyda rhai pobl eraill ac yn dod i gasgliadau cytbwys. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn gallu esbonio ystyr symbolaidd gwrthrychau, gweithrediadau a/neu iaith grefyddol.

Lefel 8

Bydd disgyblion yn ystyried cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, yn gwerthuso ystod o bosibiliadau ac yn dod i gasgliadau rhesymegol a seiliwyd ar y dystiolaeth a gasglwyd. Byddant yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o gysyniadau crefyddol, gan gynnwys safbwyntiau amrywiol ar gredoau, gwerthoedd a thraddodiadau o fewn y crefyddau a astudir. Byddant yn gwerthuso'r agweddau amrywiol ar grefydd ac yn esbonio sut y mae'r rhain yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas. Byddant yn ystyried y cysyniadau crefyddol a astudir, yn gwerthuso eu safbwyntiau eu hunain ac eraill trwy ddadleuon a thystiolaeth resymegol. Byddant yn defnyddio ystod eang o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd.

Perfformiad Eithriadol

Bydd disgyblion yn adnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendiant yw'r atebion yn aml. Byddant yn dadansoddi ac yn cynnig rhesymau dros y gwahanol safbwyntiau sy'n rhan o'r credoau, gwerthoedd a thraddodiadau'r crefyddau a astudir, gan gydnabod y gwahaniaethau rhwng y crefyddau a gwerthfawrogi'r tyndra rhwng undod ac amlblwyfaeth o fewn pob crefydd. Bydd ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymddygiad a chredoau ymlynwyr o fewn ystod o systemau ffydd. O ran y cysyniadau crefyddol a moesol a astudir, byddant yn mynegi barn wedi'i hystyried yn llawn o safbwyntiau pobl eraill wedi'i seilio ar ymchwiliad dwfn. Byddant yn defnyddio ystod helaeth o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig iawn o iaith symbolaidd.

Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, bydd addysg grefyddol yn ysgogi disgyblion i ystyried cwestiynau a materion sylfaenol sy'n ymwneud â'u hanghenion unigol, yn ateb galwadau'r byd modern ac yn ysgogi ac yn herio eu syniadaeth eu hunain ac eraill, gan felly adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a gaffaelwyd yn y cyfnodau allweddol blaenorol. Trwy gyfranogi a chymryd rhan yn weithredol, cynnal dadleuon heriol ac ymchwilio'n fanwl i grefydd a syniadau crefyddol/anghrefyddol sy'n amlwg yn eu hardal leol yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang, dylai'r disgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu gwybodaeth er mwyn cyflwyno damcaniaethau a chreu rhagdybiaethau, gan felly ysgogi cwestiynau dyfnach a mwy heriol. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a helaeth o grefydd a syniadau crefyddol yn meithrin sensitifrwydd a pharch diwylliannol, gwerthfawrogi amrywiaeth, mwy o gydlynid cymdeithasol a chyfrifoldeb yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae addysg grefyddol yn crisialu datblygiad ysbrydol a moesol, a gall ysgogi ymatebion personol llawn mynegiant pan fydd disgyblion yn darganfod bydau a gwerthoedd y tu hwnt i'r cyffredin a'r materol, a phan fyddant yn cael eu goleuo gan gysylltiadau neu ymwybyddiaeth sydd newydd eu deall. Trwy eu gwaith archwilio dylai'r disgyblion ddechrau deall bod casgliadau ynghylch cwestiynau sylfaenol a phersonol yn rhannol, yn amhendiant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yn darparu Rhaglenni Astudio enghreifftiol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Mae'r sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 yr un fath, ond mae'r ystod yn wahanol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r fframwaith yn darparu Rhaglen Astudio enghreifftiol sy'n perthnasu â gofynion cymwysterau TGAU cyfredol, ond mae hefyd yn darparu awgrymiadau ar gyfer cyrsiau cyfoethogi arloesol seiliedig yn yr ysgol sy'n perthnasu â'r Craidd Dysgu 14–19 a/neu gymwysterau priodol eraill, e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru. Byddai asesu ar gyfer astudiaethau o'r fath naill ai'n cael ei gynnal yn ffurfiol trwy'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan gorff dyfarnu neu drwy bennu canlyniadau ysgol benodol yn seiliedig ar y Lefelau Enghreifftiol Cenedlaethol.

Gellir gweithredu'r Rhaglen Astudio enghreifftiol amrywiol i ddisgyblion Ôl-16 mewn amryw o ffyrdd arloesol fel rhan o raglen cyfoethogi ysgol. Maent yn perthnasu â'r Craidd Dysgu 14–19 a/neu gymwysterau priodol eraill, e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru, gan gynnig modd i ysgolion gyflawni eu rhwymedigaethau statudol i ddisgyblion hyd at 19 oed. Byddai asesu ar gyfer astudiaethau o'r fath naill ai'n cael ei gynnal yn ffurfiol trwy'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan gorff dyfarnu neu drwy bennu canlyniadau ysgol benodol yn seiliedig ar y Lefelau Enghreifftiol Cenedlaethol.



Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy'r **dair elfen graidd ryngberthynol** y pwnc, sef:

- **Y cwestiynau sylfaenol** – sy'n codi trwy brofiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd
- **Credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion)** – storiâu crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol gwahanol
- **Mynegiant ac ymateb personol** – cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau i brofiadau'r disgyblion eu hunain a chynnig modd datblygu mewnwelediadau personol.

Mae'r elfennau craidd hyn yn cynnig gwybodaeth ar gyfer ei gilydd a dylid cymhwyso'r tair elfen i'r ystod a'r cyd-destun a astudir.

Sgiliau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Ystyried y cwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- gofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- ystyried cwestiynau sylfaenol o amryw o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol gwybodus er mwyn gwerthuso ystod o bosibiliadau a dechrau tynnu casgliadau rhesymegol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd
- gweithio ar eu pennau eu hunain a gydag eraill i greu rhagdybiaeth, defnyddio technegau datrys problemau, meddwl beirniadol, creadigol, greddfol a metawybyddiaeth ddatblygedig i werthuso ystod o dybiaethau, posibiliadau ac esboniadau
- gwerthuso a chyfiawnhau dadleuon a safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac ymarfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- galw i gof, disgrifio ac esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a ymchwiliir
- gwneud ac ymchwilio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol er mwyn dangos dealltwriaeth gydynol o syniadau/cysyniadau crefyddol

- cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol er mwyn cyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac ymarferion ac esbonio yn fanwl gywir ystod o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol
- ystyried tystiolaeth ynghylch sut mae crefydd yn cael effaith ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan werthuso ystod o ddehongliadau
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storiâu, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- cyfleu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadleuon rhesymegol, barn a syniadau personol mewn amryw o ffyrdd creadigol, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- gwerthuso sut y gallai dysgu am yr amrywiaeth o brofiadau crefyddol/ysbrydol a phenderfyniadau moesol effeithio ar eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu a gwerthuso safbwyntiau eraill er mwyn iddynt allu tynnu eu casgliadau rhesymegol eu hunain a datblygu agweddau cadarnhaol
- myfyrio ar ddehongliadau o ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod eang o eirfa grefyddol a dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i gael gwybodaeth a chyfleu cysyniadau crefyddol.





Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol

Ystod ar gyfer AG statudol wedi'i hachredu/heb ei hachredu yng Nghyfnod Allweddol 4

Mae'r ystod yn disgrifio cyd-destun/cwmpas yr astudio sy'n gallu ychwanegu her i bynciau traddodiadol, rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i gwestiwn sylfaenol penodol a/neu ysgogi meddwl am ystod o gwestiynau rhyngberthynol. Ni ddylid ystyried bod yr ystod yn rhestr o gynnwys/pynciau i'w hastudio. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy'r canlynol:


Y byd

- **Ile, pwrpas a gwerth bywyd** – dylanwad ac effaith ddwyochrog crefydd ar berthnasoedd, cymunedau a diwyllianau yng Nghymru, Ewrop a'r byd, e.e. *sialensiau perthnasoedd (dynol/Dwyfol), dyfodol y gymuned, amrywiaeth diwylliant a chrefydd* 
- **y byd naturiol a phethau byw** – sut mae crefydd yn ysbrydoli pobl i weithredu o fewn y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang, e.e. *gwirfoddolwyr gwasanaeth cymunedol; asiantaethau cymorth lleol, cenedlaethol a byd-eang; dylanwad crefydd ar ddinasyddiaeth; stiwardiaeth; cynladwyedd; hawliau anifeiliaid; sancteiddrwydd bywyd* 
- **taith bywyd** – sut mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth bersonol a chyfunol, e.e. *ffasiwn, chwaraeon, amser hamdden, addoli a dathlu, magwraeth, cymuned leol*

Profiad Dynol

- **hunaniaeth ddynol** – sut y canfyddir ac y gwerthfawrogir natur a hunaniaeth ddynol mewn crefydd a diwylliant yn yr unfed ganrif ar hugain, e.e. *agweddau a gwerthoedd dynol, hunanoldeb ac anhunanoldeb, tegwch, cyfiawnder a chydaddoldeb*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth mewn crefydd, e.e. *da, drwg, ewylllys rhydd, tynged, dioddefaint, diniweidrwydd, gobaith, bywyd/marwolaeth/bywyd ar ôl marwolaeth* – materion sy'n codi o

ddehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o ddigwyddiadau a ffenomena cyfoes, e.e. *gwneud penderfyniadau gwleidyddol; gwariant cyhoeddus; trychinebau naturiol; dyled unigolyn, cenedlaethol ac byd-eang*

- **perthyn** – sut mae crefydd a diwylliant yn ysbrydoli ymrwymiad, addewid, ymroddiad, myfyrio a dyhead, e.e. *tebygrwydd rhwng chwaraeon a chrefydd; defnyddio a chamddefnyddio amser hamdden; mynegi ffydd trwy astudio, gweithredu, myfyrdod ac addoli*
- **awdurdod a dylanwad** – effaith crefydd ar broses gwneud penderfyniadau unigolion a chymunedau yng Nghymru, Ewrop a'r byd, e.e. *sialensiau i ryddid crefyddol, rhyddid barn/gwybodaeth/symud, cyfreithiau sanctaidd/seciwlar, iawnderau dynol/sifil, cydwybod, cyfiawnder, rhyddhad, rhyfel, heddwch, cymodi* 
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – effaith crefydd ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol yr hunan ac eraill, e.e. *rheolau ar gyfer byw, iawnderau a dyletswyddau, croesawu amrywiaeth, agweddau at adnoddau a'u defnyddio, sialensiau i grefydd yn y gweithle/dewis gyrfa/galwedigaeth, urddas dynol, cydraddoldeb, unplygrwydd, goddefgarwch, cyfrifoldeb*

Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – ffyrdd traddodiadol a chyfoes o fynegi profiad crefyddol a'r ysbrydol, e.e. *natur Duw, symbolau/delweddau, profi Duw, rhesymau dros gredu yn Nuw, ffydd ac amheuaeth*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – cryfder darbwyllyad crefyddol/ysbrydol sy'n cynnig modd i bobl fentro bod yn wahanol a gweithredu er mwyn cyflwyno newid cadarnhaol, e.e. *perthynas â Duw ac ymateb i Dduw; effaith crefydd/ymrwymiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn ac ar draws crefydd.*



Ystod ar gyfer AG statudol wedi'i hachredu/heb ei hachredu Ôl-16

Mae'r ystod yn disgrifio cyd-destun/cwmpas yr astudio sy'n gallu ychwanegu her i bynciau traddodiadol, rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i gwestiwn sylfaenol penodol a/neu ysgogi meddwl am ystod o gwestiynau rhyngberthynol. Ni ddylid ystyried bod yr ystod yn rhestr o gynnwys/pynciau i'w hastudio. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy'r canlynol:

Y byd

- **Ile, pwrpas a gwerth bywyd** – sut mae crefydd yn pwysleisio gwerth bodolaeth ddynol, e.e. *cymhellion, penderfyniadau a chanlyniadau, ecsploetiaeth a chaethwasiaeth fodern, cyfiawnhau masnachu teg/cydraddoldeb/cyfiawnder*
- **y byd naturiol a phethau byw** – cyfiawnhad a gwrthwynebiad crefyddol i ddefnyddio a chamddefnyddio'r byd naturiol a phethau byw, e.e. *moeseg feddygol, dehongliadau o'r ddeddf naturiol, llywodraethu'r byd*
- **taith bywyd** – dehongliadau crefyddol o'r cread a phwrpas y ddynoliaeth, e.e. *natur yn erbyn magwraeth; dehongliadau o dynged, ffawd ac iachawdwriaeth*

Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – cwestiynau am sicrwydd a gwirionedd crefyddol yn y gymdeithas gyfoes, e.e. *dehongliadau o Dduw, teledu realiti, gwirionedd a gonestrwydd yn y cyfryngau, hedoniaeth*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut mae gwerthoedd a syniadau crefyddol a chyfoes yn dylanwadu ar hunan-barch a barn am eraill, e.e. *portread o Dduw yn y cyfryngau, crefydd, moesoldeb; portread yn y cyfryngau o ddefnyddau ymddwyn ffigurau ac enwogion sy'n ysbrydoli*

- **perthyn** – y pentref byd-eang a'i oblygiadau o ran crefydd, e.e. *cymdeithas amlddiwylliannol, amblwyfaeth, cyfoeth ac amrywiaeth, hygyrchedd byd-eang, erydu gwerthoedd traddodiadol, twf cyfathrebu electronig a thoriad mewn perthnasoedd*
- **awdurdod a dylanwad** – sut mae awdurdodau crefyddol a seciwlar yn cael eu tanseilio gan y cyfryngau cyfoes a'r diwydiannau adloniant, e.e. *fideos a cherddoriaeth rywiaethol, gwneud troseddau yn gyffrous, bychanu ymddygiad rhywiol*
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – sut mae crefydd, y llywodraeth a sefydliadau byd-eang yn cael effaith ar gytgord/anghytgord byd-eang, e.e. *cyfrifoldebau'r Cenhedloedd Unedig, diwinyddiaeth rhyddhad, rhyfel/heddwch, democratiaeth/rheolau Duw*



Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – diffiniadau a dealltwriaeth draddodiadol a chyfoes o'r profiad crefyddol a'r ysbrydol, e.e. *ydy crefydd yn weithredol neu'n oddefol?, profiad crefyddol trwy'r cyfryngau, barnau seicoleg/crefyddo'r gydwybod/ymwybod*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – effaith yr anfaterol/crefyddol/ysbrydol ar unigolion, cymunedau a chymdeithasau a sut mae'r effaith hon yn cael ei rhwystro/hybu gan gymdeithas seciwlar, e.e. *portreadu profiadau ar fin marw/gwyrthiau yn y cyfryngau, gwleidyddiaeth, apathi/ymrwymiad/eithafiaeth.*

